# tafod elái

MEHEFIN 2024

Rhif 388

Pris £1


## Eisteddfod Genedlaethol 2024

£192,000 oedd cyfanswm y gronfa leol adeg yr aeth Tafod Elái i'r wasg ddiwethaf, rydyn ni bellach wedi croesi £225,000. Llongyfarchiadau a diolch yn fawr iawn i bawb ar draws yr ardal sy'n gweithio mor galed i godi arian. Mae'n braf gweld pawb yn gwisgo eu crysau T a hwdis a'r fenter ddiweddaraf yw jin yr Eisteddfod, Jin Myfyr Morganwg sydd wedi'i greu gan ddistyllfa Castell Hensol ac ar werth am £35 y botel. Rhowch wybod os byddwch chi eisiau potel...neu ddwy.

Mae'r tocynnau maes ar werth, mae rhaglen Maes B wedi'i chyhoeddi a bydd tocynnau Nia Ben Aur a'r Gymanfa'n mynd ar werth ar 14 Mehefin am 12pm. Rydyn ni'n gwybod y bydd meysydd parcio yn y Ddraenen Wen ac yn Abercynon ond y gobaith yw bod cymaint â phosib ohonom yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd. Mae tua 340 o bobl wedi llenwi'r ffurflen ar-lein i wirfoddoli felly mae dal cyfle i gynnig eich enw chi. A'r darn arall o newyddion am y tro – bydd y Goron a'r Gadair yn cael eu dadorchuddio nos Iau, 13 Mehefin a bydd y cyfan i'w weld ar raglen Heno.

Bydd stondin gyda ni yn Tafwyl (13 + 14 Gorffennaf) a bydda i'n trefnu. Rhowch wybod os gwelwch os gellwch chi helpu (prosserh@btinternet.com neu helen.prosser@dysgucymraeg.cymru).

Rhowch wybod os gallaf helpu mewn unrhyw ffordd.

Helen Prosser
(Cadeirydd Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf)

## Anrhydeddau'r Orsedd

Ymhlith y rhai sy'n cael eu anrhydeddu gan yr Orsedd yn yr Eisteddfod eleni mae nifer helaeth sydd â chysylltiad â Taf Elái. Yn eu plith mae Jane Aaron, Anne England, Angharad Lee, Elin Llywelyn Williams, Catrin Rowlands, Llinos Swain, Gareth Williams, Delyth Badder, Gill Griffiths, Rosa Hunt, Awen Iorwerth, David Lloyd-Jones, Gerallt Pennant, Rhuanedd Richards, David Roberts, Derec Stockley a Meleri Tudur Thomas. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.



Llongyfarchiadau i'r criw sydd wedi bod yn nofio hyd cyfatebol yr afon Taf o'r Bannau i Barc Ynys Angharad fel rhan o fis o heriau Menter Mai tuag at Apêl Ardal Pontypridd - Eisteddfod Rhondda Cynon Taf.

## Pencampwyr Rygbi Tag




Cafwyd llwyddiant anhygoel gan dîm rygbi tag cymysg blwyddyn 3 a 4 Ysgol Pont Sion Norton yn erbyn ysgolion eraill ar draws Cymru yn Aberystwyth ym mis Mai - Pencampwyr Cymru!! Llongyfarchiadau enfawr iddynt a diolch i Mrs Cotter a Craig Evans am eu hyfforddi.



Dawns Werin Bl 7,8 a 9 Adran Bro Taf
yn gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd



Perfformiad theatrig bl 6 ac iau buddugol Adran Bro Taf
(Canlyniadau i gyd tudalen 21)

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf
i gyrraedd erbyn
28 Mehefin 2024

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafodelai.cymru

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno



## Merched y Wawr Cangen y Garth

**Cyfarfod mis Mai - yng nghwmni Siân Lewis.**

Y mis yma buom yn hynod ffodus i fwynhau cwmni Siân Lewis (Jobbins gynt) Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru ffeindiodd gornel bach yn ei hamserlen brysur i ddod atom i roi 'chydig o hanes prosiectau diweddara'r Urdd i ni. A ninnau wedi bod yn ymateb i'r Apêl Cronfa 'Cyfle i Bawb' ers rhyw dri mis - braf oedd cael trosglwyddo siec am £200 i Siân fydd yn galluogi person ifanc difreintiedig i fynychu Gwersyll Haf eleni. Rhannodd Siân gefndir y prosiect gyda ni - ac fe soniodd am rai o lwyddiannau'r prosiect hyd yma. Cawsom ein cyffwrdd i'r fath raddau fel y penderfynsom barhau gyda'r Apêl er mwyn gallu cynnig cefnogaeth ymhellach flwyddyn nesa. Gyda chymaint ohonom wedi profi gwerth y Mudiad rhyfeddol hwn dros y blynyddoedd - braf oedd clywed am dwf eithriadol y Mudiad yn y blynyddoedd diweddar. Wedi goroesi anhawsterau blin covid dyma rai o'r ffeithiau anhygoel rannodd Siân gyda ni yn ein cyfarfod mis Mai -

- 362 o staff yn gweithio i'r Urdd heddiw, 42% dan 25 oed
- Yr Urdd yn dod a dros £45miliwn o werth economaidd i Gymru
- Dros £10m wedi ei fuddsoddi yn y gwaith o foderneiddio'r Gwersylloedd yn Glan-Llyn a Llangrannog dros y 3 blynedd ddiwethaf ac ym Medi 2023, agorwyd 4ydd Gwersyll yr Urdd yn Sir Benfro - Gwersyll Lles ac Amgylcheddol
- Yr Urdd wedi sefydlu Cronfa 'Cyfle i Bawb', cronfa ar gyfer Plant a Phobl Ifanc difreintiedig gael mynychu Gwersylloedd yr Haf am ddim
- Eleni gyda haelioni unigolion a cymdeithasau mae'r Urdd wedi cynnig dros 300 o lefydd am ddim

Mae Adran Prentisiaethau'r Urdd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, ac erbyn heddiw mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd Prentisiaethau i dros 25 o bobl ifanc yn flynyddol oddi mewn i'r Urdd yn y maes Chwaraeon, Ieuenctid a Gwersylloedd.

Mae'r Urdd yn hynod ffodus o'i harweinydd brwd a chydwybodol a hir y parhaed yr adeiladu anturus, ffyniannus sydd yn amlwg dan ofal y criw presennol sydd wrth y llyw! Diolch o galon, Siân am d'ymweliad ysbrydoledig! Joia ysbaid a gwydraid neu ddau ar ôl y Miri ym Maldwyn!

Bydd ein cyfarfod nesa ni p'nawn Mercher, Mehefin 19eg am ddau yng Nghlwb Rygbi Pentyrch.

## Llywydd Cylch Cinio



Arwel Ellis Owen yn trosglwyddo medal Llywydd Cylch Cinio Caerdydd am 2024/25 i Wyn Rees, Pentyrch.
Bydd y tymor yn agor nos Lun Hydref 7ed gyda Guto Harri yn westai .






Parti Cerdd Dant Bl.6 ac iau (Unsain) - Adran Bro Taf yn fuddugol



Beca Fflur George, Adran Bro Taf yn ennill y Ddawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol i Ferched Bl.9 ac iau.

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Anrhydeddau'r Orsedd**
Ymhlith y rhai a fydd yn cael eu hurddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf eleni mae Gill Griffiths a fydd yn derbyn y Wisg Las. Ar hyd y blynyddoedd mae Gill wedi gweithio'n ddiflino yn ei chymuned a thu hwnt i hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru mewn nifer helaeth o ffyrdd. Bu'n lywydd cenedlaethol Merched y Wawr, yn diwtor ym mhrifysgol Caerdydd ac yn swyddog y Dysgwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol. Llongyfarchiadau i Gill ar dderbyn yr anrhydedd haeddiannol hwn.

**Priodas**
Llongyfarchiadau gwresog i Cerian ac Andy ar eu priodas yng Nghanolfan Dinesig Abertawe ar y deunawfed o Fai. Bydd y dathlu yn parhau gyda seremoni allan yn Sorrento yn yr haul yng nghwmni teulu a ffrindiau ar ddiwedd y mis. Pob dymuniad da i Mr a Mrs Henderson Hughes a Iestyn.

**Ras Y Garth**
Cynhaliwyd ras flynyddol y Garth unwaith eto eleni a hynny am y 35ain tro. Bu 209 o redwyr yn ddigon dewr i fentro i'r llethrau mewn tywydd garw iawn. Yr enillydd oedd Harry Jones a lwyddodd i gwbwlhau'r daith o 7 milltir mewn 45.08 munud a'r ferch gyntaf dros y llinell derfyn oedd Nyme Kniper a hynny mewn 51.56 munud. Yn ddiddorol eleni roedd gofyn i bawb gwblhau'r 2 filltir gyntaf o fewn 45 munud neu ddychwelyd i'r clwb rygbi.

Mae'r rhedwyr yn dod o bell ac agos i gystadlu a phawb bob amser yn werthfawrogol o gefnogaeth y pentrefwyr ar y noson wrth iddynt ddod allan yn eu cannoedd i gefnogi'r achlysur.

**Colli John Williams**
Trist iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth John Williams, Perthi Bach gynt, wedi cyfnod hir o salwch. Yn ei ffordd dawel a diymhongar cyfrannodd John yn helaeth i'w gymuned mewn sawl maes. O drefnu talebau Tesco i Fenter Taf Elái, adolygu cyfrifon nifer o gymdeithasau, a chanu tenor gyda Cantorion Creigiau a Chôr Hen Nodiant lle bu'n drysorydd am flynyddoedd, doedd John ddim yn un i ddweud, "Na." Bydd bwlch mawr ar ei ôl.

Cydymdeimlwn yn ddidwyll gyda Hywel, Gareth a Sian a'r wyrion a daw cyfle i roi teyrnged haeddiannol iddo yn y rhifyn nesaf.



**Llongyfarchiadau**
Ifan Roberts, Tŷ Cnau, oedd enillydd Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Môn, Bro Alaw, eleni. Daeth i'r brig o blith wyth ymgeisydd a hynny am dri darn o waith ar ffurfiau gwahanol – Stori Fer, Portread a Monolog. Y beirniaid oedd Dr Angharad Price, Guto Dafydd a Mared Lewis. Mae Ifan yn enedigol o Ynys Môn ac wedi penderfynu cyflwyno'r wobr ariannol, ddaeth yn sgil y tlws, tuag at gronfa Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sy'n mynd i Sir Fôn ym mlwyddyn 2026.



**Swydd Newydd**
Mae un o gyn-ddisgyblion Glantaf, sydd â chysylltiad teuluol â Phentyrch, wedi ei phenodi'n Bennaeth Adloniant ac Adloniant Ffeithiol S4C. Treuliodd Beth Angell ei dyddiau cynnar yng Nghorris, Meirionnydd, cyn symud i Gaerdydd ac mae bellach yn byw gyda'i phriod Gareth (Tŷ Cnau, gynt) a'i theulu yn ardal Llanisien. Ar ôl cyfnod cynnar yn HTV, bu Beth yn gweithredu fel cynhyrchydd ac uwch-gynhyrchydd ar gyfresi adloniant, comedi a cherddoriaeth i nifer o gwmnïau teledu annibynnol. Bu hefyd yn cynhyrchu cyfresi Prosiect Pum Mil a Iaith ar Daith, yn gweithio ar ddarllediadau S4C o Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Yn fwy ddiweddar roedd yn gynhyrchydd cyfres a chyfarwyddwr ar gyfres realiti S4C "Tanwen & Ollie". Dymunwn yn dda i Beth yn ei swydd newydd.

**Clwb y Dwrlyn**
Gwestai mis Mai oedd y cyfeilydd, cerddor a'r cyfansoddwr Geraint Cynan. Aeth â ni ar daith o'i gartref cerddorol ac Ysgol Rhydfelen at Goleg Prifysgol Bangor yn 1980 lle chwaraeodd mewn bandiau am y tro cynta ac ennill gradd B Mus. Bwriadai fynd yn athro ond gan na lwyddodd i basio'i arholiad mathemateg doedd hynny ddim yn bosib ac yn hytrach derbyniodd nifer o wahoddiadau i chwarae gyda gwahanol fandiau fel Sobin a'r Smaeliaid, Bwchadanas ac Ar Log. Felly teithio nôl ac ymlaen o Gaerdydd i'r Gogledd fu ei hanes. Fel d'wedodd gallai fod wedi ennill gradd PhD ar ei wybodaeth o'r A470! Cafodd gyfle i deithio wedi hynny yn cyflwyno diwylliant Cymru ar draws y byd.



Doedd Geraint byth yn ysgrifennu'r lyrics ond yn cael ei ysbrydoli gan eiriau cyfansoddiadau gan eraill fel Aled F Williams, Hywel Gwynfryn a Ceri Wyn Jones. Roedd yn hanfodol bod partneriaeth a dealltwriaeth rhyngddynt er mwyn iddo fe fel cyfansoddwr ddarlunio'r geiriau drwy'r gerddoriaeth. Trefnodd llawer o ganeuon ar gyfer gwahanol gorau gan gynnwys Glanaethwy a chael gwefr drwy wneud hynny.

Dewisodd nifer o ganeuon i gyfoethogi ei sylwadau gan gloi gyda'i gân i Fardd y Gadair Ddu a bardd Y Deryn Du o'r Iwerddon, Francis Ledwidge, gafodd ei ladd yn Ypres ar Orffennaf 31 1917 yn union yr un dydd â Hedd Wyn.

Roedd pawb oedd yno wedi mwynhau ac yn falch bod methiant mewn arholiad mathemateg wedi galluogi cerddor amryddawn i gyfoethogi sÎn cerddorol Cymru.

**Chwaraewr y Flwyddyn**




Llongyfarchiadau i Aaron Owen Griffiths, ar gael ei ddewis yn Chwaraewr y Flwyddyn dan 14 oed Clwb Rygbi Pentyrch.

# Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf - 7

A dyma ni'n cyrraedd y cyfnod diweddar, ac unwaith eto mae gormod o awduron cysylltiedig â'r ardal inni sôn amdanynt i gyd. Byddwn yn gorffen y gyfres y tro nesaf gyda llenorion a ddaeth drwy ein hysgolion uwchradd Cymraeg, ond y tro yma hoffwn sôn yn bennaf am ddau nofelydd, englynwr, a bardd ac ysgolhaig na chafodd y fantais honno. Gydag un eithriad, cawsant eu haddysg uwchradd yn Ysgolion Gramadeg y Porth.

**T. Arfon Williams (1935-1998)**

Ganed Arfon Williams yn Nhreherbert a bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg y Porth i Fechgyn. Roedd ei rieni wedi trosglwyddo'r Gymraeg iddo ef a'i chwaer, Gwerfyl, mewn cyfnod pan oedd hynny'n eithriad mewn gwirionedd. Deintydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, a gwas sifil a fu'n un o swyddogion deintyddol y Swyddfa Gymreig. Ond roedd yn cael ei gydnabod yn feistr ar yr englyn. Ymserchodd mewn cerdd dafod a chyhoeddi tri chasgliad – *Englynion*




*Arfon* (1978), *Annus Mirabilis* (1984) a *Cerddi Arfon* (1996). Bu hefyd yn drysorydd y Gymdeithas Gerdd Dafod. Wedi ei farwolaeth golygodd Alan Llwyd *Englynion a Cherddi T. Arfon Williams, y Casgliad Cyflawn* a gyhoeddwyd yn 2003 gan Barddas.

Holais Gwerfyl pa un oedd ei hoff englyn o waith ei brawd, a hwn oedd yr un a ddewisodd – englyn er cof am eu tad sy'n nodweddiadol o ddull 'un-frawddeg' y bardd:

Wedi ei warchae lawer gaea' a gweld
holl gamp ei uniondra,
wele'r Cymynwr Ola'
yn dwyn o'r Derlwyn bren da.

'Derlwyn oedd enw cartre'r teulu yn Nhrefriw,' meddai Gwerfyl. 'Llwyn derw' yw'r ystyr, wrth gwrs. Ac 'un sy'n cwympo coed' yw cymynwr. Mae tipyn o gamp ar yr englyn, on'd oes?

Wedi ei farwolaeth, ysgrifennodd Meic Stephens, bardd arall y gallem fod yn rhoi sylw iddo yn y rhifyn hwn, deyrnged ddisglair iddo yn yr *Independent* ar 28 Hydref 1998, mewn erthygl sydd hefyd yn ymgais feistrolgar i ddehongli ein barddoniaeth gaeth i Saeson diwylliedig. Mae'n werth ei darllen: [www.independent.co.uk/arts-entertainment/obituary-t-arfon-williams-1181070.html](www.independent.co.uk/arts-entertainment/obituary-t-arfon-williams-1181070.html)

**Manon Rhys (g. 1948)**

Cafodd Manon hithau ei geni a'i magu yn y Rhondda, yr ifancaf o dair merch J. Kitchener Davies a'i wraig Mair. Mynychodd Ysgol Ynys-wen, Treorci, a symud wedyn i Ysgol Ramadeg y Merched, Porth (y 'Porth County' adnabyddus), ac yna i Ysgol Glan Clwyd, Y Rhyl. Cyhoeddodd yn helaeth, yn storïau byrion a nofelau, bu'n sgriptiwr teledu i gyfresi fel *Y Palmant Aur*, enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 2011 gyda'i nofel fer, *Neb ond Ni*, a'r Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn, 2015. A golygodd nifer o gyfrolau, gan gynnwys *Ar fy Myw – 'Sgrifennu gan fenywod yng Nghymru* (1989), a *Cerddi'r Cymoedd,* 2005, cyfrol y bues yn dibynnu'n helaeth arni wrth baratoi'r erthyglau hyn.

Gwnaeth Manon gymwynas enfawr drwy gofnodi a dehongli profiad un a faged ar aelwyd Gymraeg mewn cwm a




oedd erbyn hynny wedi ei Seisnigo i raddau helaeth iawn. Yn ddiweddar, bues yn ailddarllen ei nofel swmpus, *Rara Avis* (2005), hanes plentyndod Branwen Dyddgu Roberts. Wn i ddim faint o brofiad Manon ei hun sydd yn y nofel, oherwydd gwaith creadigol ar sail cymeriadau dychmygol yw hi, wrth gwrs. Ceir darlun trist o unig blentyn i fam weddw sy'n gaeth i'r ddiod feddwol. Mae Branwen yn dioddef unigrwydd llethol yn aml, a chyfnod o fwlian didrugaredd. Mae'r ysgrifennu'n rymus ond yn ymataliol a hynod sensitif. Wrth ddod i ddeall amgylchiadau'r teulu, a dysgu'n raddol am y ddwy drasiedi sydd wedi llywio bywyd y ferch ifanc, dysgwn lawer hefyd am gymhlethdod y gymdeithas ddwyieithog y mae'n byw yn ei chanol, ac mae hynny'n siŵr o fod yn adlewyrchu profiad Manon ei hun. Mae hiwmor pryfoclyd, a dawn i gofnodi gwahanol dafodieithoedd y Cwm, yn Gymraeg a Saesneg, yn cyfoethogi'r nofel. Yn 2013 cyhoeddwyd dilyniant i *Rara Avis*, sef *Ad Astra*, yn dilyn hanes Branwen yn yr ysgol uwchradd ac yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

**Gareth Miles (1938-2023)**

Yng Nghaernarfon y ganed Gareth Miles, a'i fagu yn y Waun-fawr. Ond treuliodd flynyddoedd lawer ym Mhontypridd, magu teulu a chynhyrchu llawer o'i waith llenyddol yno, ac felly mae'n mwy na haeddu ei le yn y gyfres hon. Cyn dechrau llenydda'n llawn-amser bu'n athro Saesneg a Ffrangeg, ac yn drefnydd cenedlaethol i UCAC.

Roedd yn ddyn diwylliedig, yn ymgyrchydd, ac yn un o sylfaenwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Roedd ei gynnyrch llenyddol yn



wirioneddol doreithiog. Ysgrifennodd ddeg nofel, ynghyd â storïau byrion a dramâu gwreiddiol, cyfieithiadau, llu o adolygiadau ac erthyglau ac ugeiniau o sgriptiau teledu, gan gynnwys i *Pobol y Cwm*. Enillodd Wobr Llyfr y Flwyddyn yn 2008 am *Y Proffwyd a'i Ddwy Jesebel*, nofel herfeiddiol am Ddiwygiad 1904-05. Ymhlith ei nofelau eraill y mae *Cwmtec, Treffin, Cuddwas* a *Ffatri Serch*.

Rwyf wrthi'n ailddarllen *Ffatri Serch* (2003) ar hyn o bryd. Gellid yn hawdd ei darllen ar wyliau wrth ochr pwll nofio, a mwynhau'r elfennau Mills and Boon a'r dychan tafod ym moch llai na chynnil weithiau (Sodom a Gommorra yw enwau'r capeli yng Nghwmbrwynog a Phwllmawnog!) Roedd yn awdur gwleidyddol iawn ac mae'n debyg iddo ddweud mewn cyfweliad â'r BBC yn 2003 mai Karl Marx oedd y person yr oedd yn ei edmygu fwyaf 'am iddo'n fwy na neb ein galluogi i ddeall y byd modern a'i gymhlethdodau, ac oesau blaenorol hefyd'. O weld fod y nofel yn cymryd cymeriadau'r ddwy ochr i'r ddadl dros ac yn erbyn cyfalafiaeth yn ysgafn, mae'n hawdd dychmygu bod Gareth wedi hen ddeall na ddylai neb ei gymryd ei hun ormod o ddifrif.

**Christine James (g. 1954)**

Cyn gorffen, rhaid crybwyll un arall o ferched Ysgol Ramadeg y Porth i Ferched, sef y cyn-Archdderwydd, enillydd y Goron a Chofiadur yr



Orsedd, Christine James, Athro Emeritws Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe.

Parhad tudalen 5 >

# Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Dathlu PSN**
Braf oedd cael cynnal a pherfformio Sioe Dathlu a Chofio PSN i'r rhieni. Bu'r ysgol gyfan yn rhan o'r sioe yn hel atgofion am hanes arbennig ein hysgol. Roedd nifer o ddagrau yn y neuadd ar ddiwedd pob perfformiad! Gwych blant! Diolch i'r staff a'r disgyblion am eu holl gwaith caled.

**Bardd plant**
Daeth bardd plant Cymru Nia Morais i gynnal gweithdy gyda blwyddyn 5 a 6 yn ddiweddar. Diolch yn fawr am yr ysbrydoliaeth a'r cymorth i helpu ysgrifennu cerddi di-ri am Gymru!



**Gweithdy**
Bu'r disgyblion wrth eu boddau yn cymryd rhan yn y gweithdy Gwyddoniaeth. Dysgon nhw bod Gwyddoniaeth yn ddiddorol, hwyl ac yn flasus!




**Diogelwch ar-lein**
Llongyfarchiadau i Max am ddangos sgiliau creadigol yn y gystadleuaeth Diogelwch ar-lein! Arbennig!



**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau mawr i griw blwyddyn 5 a 6 bu yng nghystadleuaeth yr Urdd. Roeddech chi wedi gweithio yn wych fel tîm!




**Carnifal**
Diolch i Iestyn a Bethan o @AdlibCymru am y sioe 'Carnifal y Cymoedd'. Cyfle gwych i blant yr ysgol ddysgu am enwogion yr ardal.



**Dathlu a Chofio PSN**
Cafwyd noson arbennig iawn yng Ngwesty Parc Treftadaeth y Rhondda er mwyn dathlu a chofio'r ysgol yng nghwmni cyn-staff, cyn-ddisgyblion, rhieni a staff presennol. Byddwn yn edrych nôl ar yr hanes a'r dathlu yn y rhifyn nesaf.




## Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf (parhad)

Gallwn gyfeirio at ei gweithiau barddonol, ond rhaid bodloni ar grybwyll un darn academaidd a fu'n agoriad llygad i mi, sef ei hysgrif yn *Cwm Rhondda,* gol. Hywel Teifi Edwards, 'Pen-rhys: Mecca'r Genedl'. Roeddwn yn gwybod am bwysigrwydd Ffynnon Fair, Pen-rhys, ond dim ond oherwydd cerdd Rhydwen Williams, 'Ffynhonnau'. Ond mae'r erthygl hon yn tynnu ein sylw at gylch o gerddi Cymraeg Canol gan feirdd fel Rhisiart ap Rhys, Lewys Morgannwg a Gwilym Tew yn ymwneud â'r Ffynnon ac yn disgrifio'r ddelw bren 'wyrthiol' y byddai pererinion yn teithio o bellafion Cymru i'w gweld, cyn iddi gael ei dinistrio yng nghyfnod y Diwygiad Protestannaidd. Mae'r erthygl yn un arall o gymwynasau hael merched cymoedd y Rhondda i'n cenedl.

*Glenys M Roberts*

# PONTYPRIDD

Gohebwyr: Siân a Mike Ebbsworth

**Pont Newydd**





Os ydych yn teithio o Bontypridd i gyfeiriad Tonteg, neu o Glyntaf dros yr afon Taf, fe welwch pont droed neu bompren ‘Castle Inn’ ar ei newydd gwedd. Fe ddifrodwyd yr hen bont hanesyddol yn ystod storm Dennis wrth i falurion a boncyffion darro’r bwâu cerrig a haearn, a pheri i ddŵr bydr lifo dros lannau’r afon i gartrefi cyfagos. Adeiladwyd y bont rhestredig gradd 2 yn ystod chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae’n yn ymddangos ar fap 1829 o’r dref. Tramiau o weithfeydd tun yn Nhrefforest oedd yn ei chroesi’n wreiddiol ar eu ffordd i Gamlas Morgannwg, cyn ei addasu’n heol gerbydau ac yna’n bont droed. Hwyrach nad oes cymeriad a chyfaredd yn perthyn i’r adeiladwaith newydd, ond rhaid canmol Cadw a’r Cyngor Sir am gydweithio ac ymgynghori drwy gydol y broses o ddymchwel ac ail-adeiladu. Cymerwyd pob cyfle i ddefnyddio cerrig o’r bont gwreiddiol ac mae’r gwaith o atgyfnerthu’r welydd amddiffyn rhag llifogydd yn parhau. Fe ddaw cyfle i ddarllen yr hanes ar fwrdd gwybodaeth cyn hir.

**Babi Newydd**



Llongyfarchiadau mawr i Catrin a Gwilym Edwards Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf ar enedigaeth Marged Ani ddiwedd mis Ebrill. Mae Olwen wedi dotio ar ei chwaer fach ac mae gan Siân a Mike Ebbsworth fwy o reswm i deithio lawr o Graigwen!

**Llongyfarchiadau**

Fe fydd Ceri Davies, Graigwen yn dechrau ar ei swydd newydd fel dirprwy bennaeth Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug ym mis Medi. Bu’n athrawes yn Ysgol Santes Tudful am 23 o flynyddoedd.

**Newyddion trist**

Cydymdeimlwn yn fawr â Wil Morus Jones a gollodd ei frawd John Gwynedd Y Waunfawr yn ddisymwyth iawn yn ddiweddar.

**Ysgol Pont Siôn Norton.**



O’r chwith i’r dde - Caryl Williams (cyn ddisgybl a chyn brifathrawes), Alona Rees (cyn rhiant a chyn athrawes) a Dorothy Todd (cyn rhiant a chyn brifathrawes).


Cafwyd noson arbennig mis diwethaf yng Ngwesty’r Parc Treftadaeth i nodi cau Ysgol Pont Siôn Norton ym mis Gorffennaf. Digwyddiad chwerwfelys wrth i athrawon, cyn athrawon, cyn rieni a disgyblion hel atgofion am eu cyfnodau yn un o ysgolion Cymraeg hynaf Rhondda CynonTaf. Croesawyd pawb gan y pennaeth presennol Heledd Stephens a chafwyd areithiau teimladwy a doniol gan gyn bennaethiaid. Roedd cyfle i edrych ar gasgliadau o luniau disgyblon a staff dros y degawdau. Pob dymuniad da i bawb wrth gychwyn ar bennod newydd yn Ysgol Awel Taf.




**Noson Gyri**

Mae’r diolch yn mynd i Margaret Francis a Dil Davies am drefnu noson hwyliog iawn yn y Cinnamon Tree. Pawb yn gloddesta ar gyris o bob tymheredd, a mwynhau cwis o dan ofal mentrus Ieuan Rhys. Diolch i bawb am eu haelioni, ac oherwydd hynny fe godwyd £960 tuag at Cronfa Apêl Ardal Pontypridd.

**Merched y Wawr**



Dyna noson braf gafodd y merched yng nghwmni rhadlon Helen Prosser, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod eleni. Daeth Helen atom i sgwrsio am hanes Eisteddfodau Cenedlaethol yn yr ardal sydd nawr yn Rhondda Cynon Taf. Daeth yr ŵyl i’r ardal 7 gwaith rhwng 1861 ac 1928, a 3 ymweliad ag Aberdâr! Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol swyddogol cyntaf yn y dref yn 1861 ac yn Nhreorci yn 1928. Diddorol oedd clywed am y croeso mawr a roddwyd i’r Ŵyl ac am y torfeydd anferthol ddaeth i gefnogi cystadleuthau, seremonïau a chymanfaoedd a Saesneg oedd yr iaith swyddogol. Roedd Helen hefyd yn barod iawn i ateb cwestiynau ynglyn â threfniadau mis Awst.

Fe wahoddwyd yr aelodau i gyfansoddi limrigau o flaen llaw, yn dechrau
‘Mae’r ‘Steddfod eleni yn Ponty’.

Roedd Helen yn beirniadu dros baned, a dyma’r rhai ddaeth i’r brig.

Mae’r ‘Steddfod eleni yn Ponty.
Carafans yn tagu’r ffôr sefnti.
Stondinau di-ri,
Cystadlu o fri.
Dewch bawb i ymuno’n y dathlu.

Mae’r ‘Steddfod eleni yn Ponty.
A mawr a fu’r disgwyl amdani.
Daw’r bobloedd ynghyd,
O bedwar ban byd,
Am ‘rafiaith a’r hwyl wrth gystadlu.

Mae’r ‘Steddfod eleni yn Ponty.
“’Sdim amser i siarad ‘ma heddi!
A’th y cino strêt thrŵ!
Ble ma’r portalŵ?
Gangwê er mwyn dyn!” sgrechiodd Beti.
(George)

Mae’r ‘Steddfod ym Mhonty eleni.
A’r awen farddonol yn ffynnu.
Rhwng noddi a chanu
A chwisio, diddanu.
Byddai’n falch iawn o weled mis Medi!

Er diflas fu’r gwanwyn eleni,
A’r holl law yn bygwth ein boddi.
Yr hin fydd yn braf
Ar gyfer yr haf –
Mae’r Eisteddfod eleni yn Ponty.

Mae’r ‘Steddfod eleni yn Ponty.
Cawn hwyl wrth feimio a chanu.
Cael bod yn y Côr,
Yn hwylio ar fôr
‘Da Osian a Nia sy’n caru.

Cawn gyfle i rannu profiadau her Menter Mai i godi arian i’r Eisteddfod yn y cyfarfod nesaf yn y Lloft, Clwb y Bont, nos Iau Mehefin 13eg. Hefyd cynhelir ein cyfarfod blynyddol.

Parhad tudalen 7 >

# PONTYPRIDD
**(Parhad)**




**Her a hanner!**
Llongyfarchiadau anferthol i Bethan Ford am gwblhau camp aruthrol yn ddiweddar. Er mwyn chwyddo coffrau Menter Mai yr Eisteddfod eleni fe osododd sialens i'w hun sef cwblhau hanner 'Iron Man'. Pen bore Sadwrn Mai 11eg, fe nofiodd Bethan 1.2 milltir yn y Lido cyn seiclo 56 milltir yng nghampfa Llys Cadwyn, ac yna rhedeg 13.1 milltir o amgylch Parc Ynys Angharad….yn y gwres mawr! Mae Bethan wedi llwyddo codi dros £1,500 ar ei thudalen Justgiving Menter Mai 70.3. Hoffai Bethan ddiolch i bawb am eu haelioni ac i bawb fu'n cefnogi yn ystod y dydd. Mae'r dudalen ar agor os hoffech gyfrannu.

Mae eraill yn parhau i godi arian Menter Mai, ac erbyn rhifyn mis Gorffennaf fe fydd darlun mwy cyflawn gennym, a chyfanswm ariannol y cyfan wrth gwrs. 'Showt owt' arbennig hefyd i'r dolffiniaid gosgeiddig fu'n nofio'r 30 milltir o'r Bannau i Barc Ynys Angharad!

**Clwb Llyfrau**
Fe fydd y cyfarfod nesaf fore Mercher Mehefin 19eg am 10.30 yb yn Llyfrgell Pontypridd.

**Ym Mhontypridd mae nghartre . . .**
Mae'n werth gweld rhifyn yr Haf o 'Wawr', cylchgrawn Merched y Wawr, i ddarllen am hanes ac atyniadau Pontypridd gan Jayne Rees.

**Prosiect Harddu.**
Bu unigolion a grwpiau yn brysur gyda'i gweill a'u peiriannau gwnïo ers rhai misoedd yn creu addurniadau i harddu'n adeiladau a'n strydoedd er mwyn croesawu'r lluoedd ym mis Awst. Mae'r Pwyllgor Harddu yn gofyn am wirfoddolwyr i barhau i greu addurniadau o'u dewis ac i helpu i'w gosod hefyd. Beth am ddefnyddio hen ddillad gwely i beintio neu wnïo baneri o groeso? Cadwch ddydd Sadwrn a Sul, Gorffennaf y 6ed a'r 7fed yn glir yn eich dyddiaduron. Os ewch i wefan yr Eisteddfod fe welwch linc i'r 'Prosiect Harddu'. Gallwch roi eich enwau a'ch cyfeiriadau ebost yma i dderbyn gwybodaeth yn fuan. Fe allwch gysylltu â Jayne Rees ar 07968438314 hefyd.

**Penblwyddi arbennig**
Llongyfarchiadau mawr i Delyth Jones, Cilfynydd, a Caryl Williams ar gyrraedd eu cerrig milltir arwyddocaol. Mwynhewch y dathlu ledis.

Gohebydd mis Gorffennaf - Jayne Rees

Terry Walton yn diddanu yng Nghlwb y Glowyr



# TONYREFAIL
Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Pwyllgor Codi Arian Eisteddfod 2024**
Diolch yn fawr iawn i'r criw bach ond gweithgar sydd wrthi'n trefnu digwyddiadau yn Nhonyrefail a'r Gilfach Goch. Cafwyd tri digwyddiad llwyddiannus yn ystod y mis diwethaf: diolch i'n garddwr enwog Terry Walton am ein diddanu yng Nghlwb y Glowyr, diolch i Clair Gwiliam am drefnu taith gerdded 'O dafarn i dafarn' a threfnu'r tywydd perffaith ar ei chyfer, a diolch i Gôr Merched Taf Elái a'r ysgolion lleol am gyngerdd hyfryd a gynhaliwyd yn yr Ysgol Gymunedol. A phob lwc i Gôr Merched Taf Elai yng nghystadleuaeth y côr newdd yn yr Eisteddfod.




Côr Merched Taf Elái




Ysgol Llanhari'n perfformio yn y gyngerdd yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail



Y rhai fu'n cerdded 'o dafarn i dafarn'

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill:
9 Mehefin Sêl Cist Car yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail rhwng 10am ac 1pm.
21 Mehefin Gyrfa Chwist a Physgod a Sglodion yng Nghlwb y Glowyr. Cysylltwch â fi i archebu.
7 Gorffennaf Taith gerdded yng nghwmni Jeff Owen. Cwrdd am 2pm wrth Ysgol Tref y Rhyg.

**Tocynnau am ddim i'r Eisteddfod**
Mae Cyngor Cymuned Tonyrefail am roi 50 o docynnau Maes i drigolion Tonyrefail. Rhaid dweud "pam hoffwn i fynd i'r Eisteddfod". Gall fod yn stori fer, cerdd neu lythyr. Gall fod yn ddarlun, llun ffototograffig neu fideo. Gall fod yn gân neu araith ar ffeil llais. Mae tri chategori oedran: hyd at 11 oed, 12-16 oed ac 17-90 oed. Rhaid anfon ceisiadau erbyn 14 Mehefin at:
admin@tonyrefail-cc@gov.wales.

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**“Dilyn Iwan”**
Llongyfarchiadau gwresog i Tomos West am ennill gwobr am gyfarwyddo’r ffilm ddogfen orau yn y gyfres “It’s my Shout.” Mae’n ffilm arbennig am ei frawd, Iwan, sy’n dilyn ei hynt ar ddiwrnod arferol yn ei fywyd. Gan fod gan Iwan anableddau dwys mae’r ffilm yn dangos fod angen gofal llawn amser arno, ac yn tynnu sylw fod ei fywyd yn wahanol iawn i’w gyfoedion sy’n 22 mlwydd oed. Mae’r ffilm yn dangos y gofal a’r cariad mae Iwan yn ei dderbyn o ddydd i ddydd gan ei deulu a gan Kaye ei Gynorthwyydd Personol.

Mae Iwan yn wir seren, ac yn boblogaidd iawn yn y pentref yn Efail Isaf ac yn enwedig yn Y Tabernacl a’r aelodau i gyd yn cael eu cyfarch o un i un ar fore Sul, ac ambell un yn cael cwtsh ganddo. Llongyfarchiadau iti Tomos am gyflwyno Iwan i ni mewn ffordd mor gadarnhaol a diolch iti Iwan am ledaenu llawenydd a chariad i dy deulu a’th ffrindiau.

**Cyngerdd y Talentau Lleol**
Nos Iau, Mai 16eg cynhaliwyd Cyngerdd o dalentau lleol yng Nghapel y Tabernacl i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Canwyd dwy gân fywiog gan Gôr Iau Ysgol Garth Olwg i ddechrau’r gyngerdd ac yna cafwyd amrywiaeth o eitemau gan Adran Bro Taf, yn cynnwys llefaru unigol, partïon llefaru, deuawd, unawd sioe gerdd, datganiad ar y piano a phartïon a chorau cerdd a cherdd dant. Noson o fwynhad pur! Dymunwn yn dda i’r rhai fydd yn teithio i Eisteddfod yr Urdd ym Meifod. Mae’r diolch i’r plant i gyd; ond yn bennaf i’r hyfforddwyr am roi o’u hamser i ddysgu’r plant i’r fath safon uchel. Gwahoddwyd y gynulleidfa i gael paned yn y Ganolfan ar ddiwedd y noson a chyfle i brynu nwyddau’r Eisteddfod. Diolch i Eleri Mai am drefnu’r noson ac i Geraint Rees am gyflwyno’r eitemau yn ei ffordd gartrefol ei hun.

**Beicwyr o fri!**
Llongyfarchiadau gwresog i Emlyn Penny Jones (Pens) a’i frawd David a’i ffrind Graham Evans o Ferthyr am wneud taith o 184 milltir ar eu beiciau. Mi ddechreuodd y daith yn Newcastle ac yna ymlaen i gyfeiriad Caeredin. Dyw teithio fel hyn ddim yn newydd i’r tri. Dyma eu pumed taith ar hugain.

Cododd Emlyn dros £600 i gronfa Eisteddfod Rhondda Cynon Taf.







**Noson lansio Gin “Myfyr Morganwg”**
Mwynhawyd noson gymdeithasol hyfryd iawn yn Neuadd y Pentref i lansio gin Myfyr Morganwg nos Wener, Mai 17eg. Yn ogystal â blasu’r gin newydd cafwyd blas ar hanes Myfyr Morganwg gan Wil Morus Jones. Cynhyrchir y ddiod gan Gastell Hensol ac mi gyflwynodd Clemmie Gent ychydig o hanes y castell. Codwyd dros fil o bunnoedd i Gronfa Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Diolch i Ann Griffiths am drefnu noson lwyddiannus iawn.

**Llongyfarchiadau Eleri**
Llongyfarchiadau fil i Eleri, merch Richard ac Ann Griffiths, Parc Nant Celyn ar goncro tri chopa uchaf Prydain. Mi wnaeth Eleri a rhyw ddwsin o’i chyd-fyfyrwyr o’r Coleg yn Llundain ddringo Ben Nevis, Scafell Pike a’r Wyddfa mewn tair awr ar hugain a 30 munud. Codwyd swm o arian at waith y timau achub bywyd. Go dda ti, Eleri.

**Y TABERNACL**
**Bore Agored Capel y Tabernacl**
Fore Sadwrn, Mai 11eg gwahoddwyd aelodau’r Tabernacl a phobl o’r gymuned leol i fwynhau Bore Agored yn y Capel. Mi ddaeth nifer dda ynghyd ac ar fore braf o haul cynnes cafwyd cyfle i ddarllen am hanes Y Tabernacl, ymweld â’r ardd gymunedol cyn mynd i fwynhau paned, teisen a mefus a hufen yn y Ganolfan. Diolch i bawb a fu’n trefnu’r digwyddiad ac am helpu gyda’r arlwyo yn y Ganolfan.

**Cymorth Cristnogol**
Cynhaliwyd Oedfa Wythnos Cymorth Cristnogol dan ofal aelodau’r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol fore Sul, Mai 12fed. Roedd y casgliad eleni yn cael ei gyflwyno i helpu pobl Burundi sydd yn dioddef tlodi a diffyg maeth ac yn un o wledydd tlota’r byd. Cyflwynwyd neges o Burundi ar ffilm ar ddechrau’r Oedfa ac mi aeth John Llewelyn Thomas, a oedd yn arwain y gwasanaeth ymlaen i sôn am sut mae gweithgor Y Tabernacl yn helpu pobl anghenus yn y gymuned leol yn ogystal â helpu pobl dramor.

**Merched y Tabernacl**
Ar fore Mercher, Mai 15fed aeth nifer dda iawn o’r merched i Barc Ynysangharad ym Mhontypridd. Roedd yn fore braf a heulog ac mi roedd yn bleser cael ymlwybro drwy’r Parc i gyfeiriad Stondin y band. Cawsom ein croesawu’n gynnes i Ganolfan Calon Taf gan Aled Humphreys a chael paned hyfryd ganddo. Aeth Aled ymlaen i roi hanes Parc Ynysangharad i ni, a soniodd am yr holl atyniadau y dylen ni sylwi arnynt. Bore dymunol iawn - diolch o galon i Aled. Diolch hefyd i Beti Treharne am drefnu’r ymweliad. Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â Gwinllan Llanerch ar ddydd Gwener, Mehefin 7fed. Byddwn yn cyfarfod am 11 o’r gloch yn y maes parcio.

**Caniadaeth y Cysegr**
Tro Geraint Rees, un o aelodau’r Tabernacl oedd cyflwyno’r rhaglen radio “Caniadaeth y Cysegr” fore a phrynhawn Sul, Mai 19eg. Dewisodd amrywiaeth o emynau oedd yn cwmpasu nifer o deimladau yn estyn o gariad ac addfwynder at hunanddisgyblaeth. Rhaglen ardderchog. Diolch Geraint.

**“Perthyn-i-bwy?”**
Daeth y trydydd Sul yn y mis a’r Oedfa yn cael ei chynnal am 4 o’r gloch y prynhawn. Caroline, Geraint ac Eleri Mai oedd yn llywio’r Oedfa. Cafwyd gweithgareddau a stori bwrpasol yn sôn am berthnasau i’r plant lleiaf - a chyfle i rai i fod yn actorion! Bydd Eleri Mai yn mynd i Durban i gynrychioli Undeb yr Annibynwyr a bu Geraint yn ei holi ynglŷn â’r daith. Byddwn yn awyddus i glywed ei hargraffiadau ar ôl iddi ddychwelyd. Lawr â ni i’r Ganolfan wedyn i gael paned ac i fwynhau Pizzas roedd Geraint wedi archebu i bawb.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mehefin**
Mehefin 2il Ann ac Emlyn Davies
Mehefin 9fed Allan James
Mehefin 16eg Y Parchedig John Roberts
Mehefin 23ain Dathliad Haf y Tabernacl
Mehefin 30ain Oedfa dan ofal Plant yr Ysgol Sul. Margaret Pritchard Copley, Ann Griffiths a Rhiannon Humphries.

# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi Rhys Mwyn, y cyn-gerddor, cyflwynydd radio ac archaeolegydd sy wedi sgrifennu cyfrol am safleoedd archaeolegol y de-ddwyrain.**



**Beth yw eich gwaith?**
Cwestiwn da. Mae'n debyg y dyddiau hyn y baswn i'n dweud cyflwynydd radio hefo BBC Radio Cymru a thywysydd teithiau cerdded. Mae dyddiau bod yn aelod o'r Anhrefn drosodd ac, i raddau hefyd, y gwaith maes a chloddio archaeolegol. Dwi'n trio canolbwyntio ar be' dwi'n ei fwynhau fwya.


**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Treuliais i rai blynyddoedd yn gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth a'r byd pop Cymraeg. Roedd rheoli'r band Catatonia rhwng 1992 a 93 yn gyfnod cyffrous ac roedd yr holl waith yn rhywbeth roeddwn i'n credo ynddo fo'n angerddol. Cyn ymddeol o'r byd pop yn 2010 roeddwn i wedi gweithio am dair blynedd hefo grŵp o'r enw Rich Kids oedd yn cynnwys Midge Ure a Glen Matlock (Sex Pistols) ac roedd hwn yn brofiad doniol achos roeddwn i wedi bod yn ffan o'r band pan oeddwn i yn yr ysgol.

**O ble rydych chi'n dod?**
Yn wreiddiol, o Lanfair Caereinion yn Sir Drefaldwyn. Dwi'n dal i ddweud fy mod i'n dod o Sir Drefaldwyn. Does dim cysylltiad o gwbl â Llanfair erbyn heddiw.

**Ble rydych chi'n byw nawr?**
Rwy'n byw yng Nghaernarfon (Gweriniaeth Cofiland) ers 1990 a rwy wedi bod yn ofnadwy o hapus yno. Magwyd fy hogia yma ac, yn ddiweddar, rwy wedi dechrau dilyn Tîm Pêl-droed Tref Caernarfon a chael ail wynt wrth ddarganfod Caernarfon.

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Wnes i gasáu pob eiliad o fy mhrofiad ysgol. Llawer gormod o fwlis, be' o'n i'n galw'n 'dwylo mawr a bochau cochion,' hen gythreuliaid cas go iawn, a llawer gormod o athrawon oedd ddim yn ffit i fod yn athrawon. Fedra i ddim meddwl am unrhywbeth da am fy mhrofiad ysgol onibai fy mod i ddigon o gwmpas fy mhethau.

**Pwy yw'r dylanwadau mwya?**
Pync-roc, mae'n debyg, fyddai'r dylanwad mwya arna i. Pync roddodd y cyfle i mi ddarganfod fy llais ac, i raddau, ddarganfod fy ngwleidyddiaeth o ran pethau elfennol fel bod yn wrth-hiliol, o blaid hawliau merched a hawliau hoywon ayyb. Anghofiwch yr ystrydebau – fe gynigiodd pync ryddid i ni gael mynegiant, yn enwedig yn y Gymru geidwadol, draddodiadol Gymraeg.




**Pam sgrifennu'r llyfr? Faint o ymchwil oedd angen?**
Rwy wedi ysgrifennu pedair cyfrol am archaeoleg Cymru ac mae un i bob rhanbarth. Felly y de-ddwyrain oedd y bedwaredd a'r olaf. Wrth reswm, roedd angen cryn dipyn o ymchwil ond, yn bennaf, roedd rhaid ymweld â phob safle er mwyn sgwennu amdanyn nhw.

**Sut mae cyn aelod grŵp pync yn archaeolegydd?**
Cwestiwn da arall. Tydi hyn ddim mor od â mae rhywun yn feddwl. I mi, mae'r holl beth yn ymwneud â diwylliant a thirwedd Cymru. Archaeoleg oedd fy nghariad cynta. Pync-roc oedd fy mynegiant. Mae'r ddau beth wedi cadw fi i fynd ac wedi bwydo ei gilydd.

**Pa sgiliau sy angen ar archaeolegydd?**
Y gallu i ddehongli ac arsylwi. Mae yna sgiliau ymarferol o ran cloddio. Ond, yn bennaf, rhaid ceisio deall sut roedd pobol yn byw a gweithio yn y gorffennol.

**Ble oedd y fan fwya diddorol yn y de-ddwyrain? Pam?**
Anodd rhoi safleoedd archaeolegol mewn trefn o ran bod yn ddiddorol neu fy hoffter i. Efallai roedd y bennod am siambrau claddu Dyffryn Gwy (siambrau claddu Cotswold-Hafren) yn ddifyr i'w sgwennu. Ond roedd astudio Gwastadeddau Gwynllŵg yn hynod ddiddorol ac yn ardal llai 'amlwg'.

**Pa mor bwysig yw'r safle lleol, Y Maen Chwyf / Y Garreg Siglo ym Mhontypridd?**
Y peth eithriadol am y Maen Chwyf yw bod yma safle archaeolegol aml-gyfnod a hefyd safle archaeolegol derwyddol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Does dim safle arall cweit fel hwn!

**Sut mae modd poblogeiddio archaeoleg?**
Dyna dwi i'n trio gwneud drwy fy ngwaith tywys, darlithio a sgwennu llyfrau. Yn amlwg, mae rhaglenni teledu fel *Time Team* wedi helpu llawer ond tydi *Time Team* ddim yn rhywbeth Cymreig. Felly mae angen mwy o ymdrech yng Nghymru.

**Ydych chi wedi darganfod unrhyw wrthrych diddorol?**
Y trysor go iawn yw'r hyn rydym yn ei ddysgu, y gwrthrychau sydd yn caniatáu i ni ddyddio safleoedd a dweud y stori. Dyna'r peth pwysig, dysgu.

**Beth sy'n rhoi'r pleser mwya? Tiwtora, arwain teithiau neu sgrifennu?**
Does dim byd gwell na bod allan yn cerdded ond faswn i byth yn dweud bod un yn well na'r llall. Ond dwi'n greadur awyr agored yn sicr!

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**
Ffeindia dy lais dy hun!

**Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?**
Cadw cyfrifon (ar ôl i mi ddechrau trefnu gigs a gwneud pres)

**Beth oedd eich llwyddiant mwya? Y siom fwya?**
Y llwyddiant mwya yw fy mod dal yma yn gallu creu a gwneud be' dwi isho wneud.

**Beth sy ar y gweill?**
Rhaglen radio bob nos Lun am 7pm ar BBC Radio Cymru. Heb benderfynu eto beth fydd y llyfr nesa?



**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Omled madarch hefo nionod tragwyddol ('chives').

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Garddio.

**Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781845278649&tsid=3**

***Cam i Forgannwg, Gwent a Brycheiniog*, Gwasg Carreg Gwalch, £9.50**

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

### Cynhwysyn hanfodol Wimbledon

Roedd fy nhaid yn arddwr brwd ac un o'm hatgofion cynharaf yw cael casglu'r mefus aeddfed cyntaf y tymor o'i ardd, a beth sy'n well na dod o hyd i'r mefus melys bach gwyllt sy'n edrych fel tlysau'n tyfu yn y cloddiau. Mae'n debyg bod gan ddail ifanc y planhigyn briodweddau astringent a gellir eu defnyddio mewn te llysieuol i leddfu symptomau dolur rhydd, anhwylderau treulio, a chwynion wrinal. Daw enw eu genws, Fragaria, o'r gair Lladin *fraga*, sy'n golygu persawr. Mae'r gair Saesneg 'strawberry' yn deillio o arferiad crwydro (h.y.'straying') afreolaidd y planhigyn.

Mae mefus a mafon yn perthyn i deulu'r rhosod ac fe'i gelwir yn ffrwyth 'ffug' gan fod eu hadau ar y tu allan. Oherwydd ei liw a'i siâp bu mafon yn gysylltiedig ers amser maith â chariad a pherffeithrwydd.

Mae'r Ffrancwyr yn cael y clod am ddod â'r mefus gwyllt o'r goedwig i'w gerddi am y tro cyntaf yn y 1300au a dywedir bod gan Frenin Siarl V dros 1200 o blanhigion mefus yn ei ardd. Yn y 1400au cynnar roedd mynachod gorllewin Ewrop yn defnyddio'r mefus gwyllt yn eu llawysgrifau goleuedig ac roedd y planhigyn mefus cyfan yn cael ei ddefnyddio'n feddyginiaethol i drin salwch iselder. Credir bod paru mefus â hufen wedi dechrau yn ystod y wledd Duduraidd foethus a fwynhawyd gan lys Harri VIII. Erbyn y 1500au daeth cyfeiriadau at dyfu mefus yn fwy cyffredin. Roedd pobl yn dal i'w ddefnyddio ar gyfer ei briodweddau meddyginiaethol tybiedig, ond nawr dechreuodd botanegwyr enwi'r gwahanol rywogaethau. Yn Lloegr roedd y galw am ffermio mefus yn rheolaidd wedi cynyddu erbyn canol y 1500au. Ymddangosodd cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer tyfu a chynaeafu mefus ym 1578 ac erbyn diwedd y ganrif roedd tair rhywogaeth Ewropeaidd wedi'u dyfynnu; *Fragaria vesca, Fragaria moschata*, a *Fragaria viridis*.

Yn y 1600au cyflwynwyd *Fragaria Virginiana* o arfordir dwyreiniol Gogledd America i Ewrop. Ymledodd y rhywogaeth newydd yn raddol trwy'r cyfandir ond yn dal i fod yn wahanol iawn i'r hybrid modern. Alldaith Ffrengig i Chile, ym 1712, a arweiniodd at gyflwyno planhigyn gyda blodau benywaidd, *Fragaria Chiloensisor* - y mefus Chile. Unwaith eto, er bod y planhigion newydd hyn wedi tyfu'n egnïol yn Ewrop, nid oeddent yn cynhyrchu unrhyw ffrwyth. Yn 1766 ddarganfuwyd mai dim ond y planhigion hynny a gynhyrchodd ffrwythau mawr y gallai planhigion benywaidd gael eu peillio. Yn 1766 deallodd tyfwyr Ewropeaidd o'r diwedd fod planhigion mefus yn cynhyrchu blodau gwrywaidd yn unig neu fenywaidd yn unig, a'r sylweddoliad hwn a baratôdd y ffordd ar gyfer tyfu'r hybrid mefus cyffredin sydd gennym heddiw.



Arloesodd Thomas Andrew Knight, un o fotanegwyr mwyaf dylanwadol Prydain, fridio mefus ar raddfa fawr yn y 19eg ganrif. Etifeddodd 10,000 erw o dir, Downton Hall, a defnyddiodd yr eiddo i gynnal pob math o arbrofion ar blanhigion gan gynnwys mefus, bresych, a phys. Cafodd ei arbrofion bridio eu cydnabod gan Charles Darwin yn *The Origin of Species*. Erbyn canol y 19eg ganrif, roedd mefus Downton yn fefus poblogaidd ym Mhrydain. Fodd bynnag, ym 1821 achosodd 'Keens' Seedling' a amaethwyd gan arddwr marchnad o'r enw Michael Keen gyffro, a buan iawn y daeth yn amrywiaeth fwyaf poblogaidd oherwydd ei faint a'i flas; mae bron pob math modern o fefus yn deillio ohono. Ar ddiwedd y 1940au, datblygwyd y technegau ar gyfer codi stociau di-feirws a dechreuwyd bridio croesrywiau modern ac erbyn hyn mae dros 60 o fathau yn cael eu tyfu yn Ewrop.

Ers 1983 mae rhaglen fridio mefus cenedlaethol wedi bod yng Nghanolfan Ymchwil East Malling, Swydd Caint. Wedi'i brynu'n ddiweddar gan Bayer, mae gwyddonwyr nid yn unig yn ymchwilio i wahanol broffiliau blas a lliwiau ond hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu mathau o fefus sy'n gallu ymdopi'n well ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a ragwelir, yn enwedig tymereddau haf uwch a llai o law.

Mae technoleg hefyd yn ymestyn y tymor tyfu mefus gyda mefus wedi'u tyfu o dan wydr gyda system dywydd a reolir gan gyfrifiadur i sicrhau bod y planhigion mefus yn cael yr hinsawdd orau i ffynnu. Amcangyfrifir bod tair miliwn o fefus wedi'u cynhyrchu gan y prosiect ar fferm, yn Carrington ger Boston, Swydd Linclon, sy'n eiddo i Syr James Dyson. Mae'r gweithlu sy'n casglu'r ffrwythau yn cynnwys 20 o robotiaid a ddysgwyd i adnabod pan fyddant yn barod.



Gweiniwyd mefus a hufen yn Wimbledon ym 1877 am y tro cyntaf. Roedd datblygiad y rheilffyrdd yn ystod y 19eg ganrif yn golygu bod modd casglu'r ffrwythau a'u cludo i Lundain ar yr un diwrnod i sicrhau'r ffresni mwyaf. Bob blwyddyn, amcangyfrifir bod 27,000 kilo o fefus, ynghyd â 7,000 litr o hufen, yn cael eu bwyta yn Wimbledon ac efallai y bydd cefnogwyr tenis yn cael eu trin â mefus mwy suddlon eleni ar ôl i aeaf gwlyb a thywyll arafu amseroedd tyfu, gan arwain at ffrwythau mwy a mwy blasus.



Un o'r ffyrdd mwyaf poblogaidd o weini mefus yw Llanast Eton ond efallai yr hoffech chi fod yn fwy anturus.

Mae finegr balsamig a phupur du yn dwysáu blas mefus, gan ddod â'u melyster allan. Yn naturiol felys, gellir hefyd ddefnyddio mefus i gydbwyso rysetiau sawrus fel gazpacho a salsa. Rhowch gynnig ar fefus wedi'u haneru a thomatos ceirios neu eirin gyda pesto basil a vinaigrette basil (wedi'i wneud trwy drwytho olew olewydd â basil ffres a'i gyfuno â finegr gwin gwyn) yna ysgeintiwch dail basil babi ffres, corn pupur pinc wedi'i falu a halen môr a'i roi ar ben gyda burrata neu mozzarella.



Mae medaliynau porc gyda saws mefus yn ffefryn gan Sabrina Ghayour. Mae'r mefus yn cael eu pobi ar hambwrdd popty gyda siwgr, seren, sudd lemwn, halen a phupur, yna eu gweini gyda ffiled porc heb lawer o fraster wedi'i orchuddio mewn ras-el-hanout a'i ffrio mewn padell.

Mae rysait Salad Mefus Adam Wood yn dechrau trwy gymysgu tomato, ciwcymbr ac shibwnsyn gydag ewin o arlleg, sbeisys a pherlysiau. Yna caiff hwn ei hidlo i gael dŵr â blas tomato a'i ddefnyddio mewn dresin gydag olew olewydd a finegr.

Parhad tudalen 11 >

# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Celf yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Twm Geraint a Teifi Pike ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Celf yr Urdd. Fe enillodd y ddau yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth ranbarthol. Daeth Mari Davies yn ail yn y gystadleuaeth uwchgylchu a Teifi yn ail am greu pyped arbennig. Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch.



**Rhandir Maesycoed**
Mae partneriaeth newydd wedi dechrau rhwng yr ysgol a rhandir Maesycoed. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'r gwirfoddolwyr yno a thyfu pob math o fwydydd. Mwynheuodd y Cyngor Eco eu hymweliad â'r rhandir yn fawr iawn.

**Mabolgampau**
Cawsom ddau brynhawn arbennig ym Mharc Ynysangharad yn ein



mabolgampau. Daeth cymaint o gefnogwyr i'r parc i weld ein disgyblion disglair yn mwynhau yn yr haul. Diolch i Ffrindiau Evan James am ddarparu lluniaeth ac i Mrs Lockett am drefnu'r cyfan.

**Diwrnod Seren a Sbarc**
Diolch i'r Criw Cymreig am drefnu diwrnod yn llawn hwyl ar ddiwrnod Seren a Sbarc. Roedd y plant wrth eu boddau'n dawnsio yn y disgo a'n gwrando ar straeon Cymraeg yn ein gardd. Roedd yr ysgol yn fwrlwm o Gymreictod.



**Disgo Ffrindiau Evan James**
Trefnodd Ffrindiau Evan James ddisgo gwych yn neuadd yr ysgol. Yn sicr, mae dawnswyr dawnus iawn yn yr ysgol ac fe fwynheuodd pawb yn fawr.

**Gwasnaethau gan ymwelwyr**
Diolch yn fawr i Amelia Huw Morgan am ddod i'r ysgol i drafod prosiect cyffrous y bydd yn ei arwain i groesawu'r Eisteddfod i Rondda Cynon Taf. Bydd cyfle i ddisgyblion yr ysgol fynychu gweithdai creu pypedau dros y misoedd nesaf er mwyn cyfrannu at yr orymdaith yn ystod yr Eisteddfod. Cyffrous iawn!



Diolch hefyd i Drafnidiaeth Cymru am baratoi gwasanaeth i ni am y rhwydwaith trenau yn ardal Pontypridd.

**Prynhawn ailgylchu gwsig ysgol**
Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn brysur yn cynnal sesiynau ailgylchu dillad ar iard yr ysgol. Maent yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein hysgol yn ysgol werdd. Diolch i chi.

**Ymweliad PC Jenkins**
Diolch i PC Jenkins am ymweld â ni unwaith eto. Y tro hwn, dysgom am ddiogelwch ar y we ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.



## Colofn Blasus a Iachus
### (Parhad)

Ar gyfer y salad mae'n defnyddio ffenigl wedi'i sleisio, ciwcymbr a nionyn coch gyda berwr y dŵr, mintys, lovage a basil porffor. Mae'r mefus yn cael eu sleisio ac yna eu trwytho mewn finegr balsamig am bum munud cyn eu gwasgaru dros y salad gydag olew olewydd.

Mae mefus wedi'u piclo yn gyfeiliant perffaith i hwyaden rhost. Dewch â 150ml o finegr gwin gwyn, 50g o siwgr mân a dŵr, 1 seren anis a ½ llwy de o fflochiau tsili i'r berw. Gadewch y cymysgedd i oeri cyn ychwanegu llond llaw o fefus. Gadewch iddynt eistedd am 20 munud, felly mae'r ffrwyth yn dal yn felys ond wedi'i biclo ychydig. Yna, gweinwch y mefus ochr yn ochr â'r hwyaden a'r tatws.



Pa bynnag ffordd rydych chi'n eu paratoi a'u bwyta, mwynhewch y tymor mefus. Mae'n amser i mi rwydo fy mhlanhigion gan eu bod yn cael eu llygadu gan y piod!

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 20fed o Fai 2024 cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Elin Rhys ar Gwyddoniaeth ar y Cyfryngau Cymraeg. Rwy'n siŵr bod Elin yn adnabyddus i ni i gyd fel cyflwynydd teledu a sefydlydd Cwmni Telescôp, ac roedd y cyflwyniad am y llwyddiannau a'r problemau mae hi wedi gweld dros y blynyddoedd. Dechreuodd drwy sôn am rai o'i dylanwadau cynnar yn arbennig Star Trek a darllediadau Patrick Moore am y rocedi Apollo. Soniodd Elin am rhaglen ddogfen gofiadwy o'r enw 'The Double Helix' am ddarganfyddiad strwythur DNA wnaeth wneud iddi feddwl am sut i roi rhaglen deledu at ei gilydd mewn ffordd ddifyr. Roedd Eirwen Gwynn a'i chyfraniadau radio a theledu yn ysbrydoliaeth mawr iddi hefyd.

O dan y pennawd 'Pam Cyfathrebu Gwyddoniaeth' siaradodd Elin am bwysigrwydd gwyddonwyr mewn adeg o argyfwng gan ddyfynnu COVID19 fel enghraifft bwysig ddiweddar. Mae'n bwysig gwneud gwyddoniaeth yn dryloyw fel gall pobl ymddiried ynddo, ac i'r rhai sydd wedi gadael ysgol, mae rhaglennu teledu yn gallu cael rôl addysgiadol bwysig. Gellir defnyddio syniadau gwyddonol i ddylanwadu a llywio polisïau ein llywodraeth ac hefyd i ysbrydoli y to ifanc o wyddonwyr. Ond yr eitem olaf ar y rhestr yw yr unig un sy'n bwysig i'r cwmni darlledu, sef creu adloniant i gael rhifau gwylio uchel sy'n plesio'r hysbysebwyr.

Roedd taith bersonol Elin o gael gradd mewn Biocemeg, a'i swydd gyda'r bwrdd dwr, a'i rhaglen deledu gyntaf 'Dibendraw' wedi dangos iddi nad yw'n bosib gwneud bywoliaeth o gyflwyno rhaglennu gwyddoniaeth yn Gymraeg yn unig. Felly ar ôl sefydlu Cwmni Telescôp roedd rhaid gwneud pob math o rhaglenni i gadw'r cwmni yn llewyrchus. Y rhaglen gyntaf oedd 'Galactica', ond efallai mai 'Ffermio' oedd y gyfres sy'n cadw'r cwmni i fynd – er gellir dadlau bod tipyn o wyddoniaeth ym myd amaeth. Ar ôl ail gyfres i 'Dibendraw' daeth 'Her yr Hinsawdd' a dorrodd dir newydd cyn i sianeli eraill ddal i fyny. Ers hynny mae Telescôp wedi gwneud sawl cyfres i ddarlledwyr tramor sydd yn gyd-gynyrchiadau llwyddiannus ac wrth gwrs y sioe radio 'Yfory Newydd' lle mae'r genhedlaeth nesaf o wyddonwyr yn siarad am eu gwaith, ac rwy'n siŵr bod rhai ohonynt wedi cael eu ysbrydoli gan waith cwmni Elin.

Rhys Morris

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Mehefin 2024**:
2il Mehefin – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
9fed Mehefin – Oedfa Ardal Radur
16eg Mehefin – Oedfa dan ofal Marc Jon Williams
23ain Mehefin – Oedfa dan ofal Huw Lloyd
30ain Mehefin – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Owen
[Hefyd 30ain Mehefin (p.m.) – Cyflwyniad o'r "Gwynfydau" yng Nghapel Minny Street, Caerdydd]

**Mis Gorffennaf 2024:**
7fed Gorffennaf – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
14eg Gorffennaf – Oedfa dan ofal Sian Meinir
21ain Gorffennaf – Oedfa ar y cyd yn y Tabernacl, Efail Isaf
28ain Gorffennaf – Oedfa ar y cyd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth

---oooOOOooo---

Mae'n ddydd Llun yr 20fed o Fai arnaf yn paratoi'r cyfraniad yma i Tafod Elái!

Tybed a wyddech chi fod yr 20fed o Fai yn ddydd arbennig iawn?

Mor arbennig yn wir nes bod y Cenhedloedd Unedig (CU) wedi ei gydnabod fel *Dydd Gwenyn y Byd!*

[Dewisiwyd yr 20fed o Fai fel Dydd Gwenyn y Byd oherwydd mai dyma ddydd penblwydd Anton Jansa, gwr o Slofenia, a ddatblygodd, yn yr 18fed ganrif, ddulliau modern o gadw gwenyn – gan eu "*canmol am eu diwydrwydd a'u gwaith caled, tra'n mynnu cyn lleied o sylw*"!]

"Rydym i gyd yn ddibynol ar oroesiad y gwenyn" medd y CU.

Pam hynny?

Wel, yn ôl y CU, mae'r gwenyn, a pheillyddion eraill, megis y pili-pala a'r ystlumod, dan fygythiad gan yr hyn yr ydym ni, y ddynoliaeth, yn ei wneud i'n hamgylchedd a'n byd.

Rydym yn esgeulus, ac rydym yn gwneud niwed i barhad bywyd ar ein planed.

Mae peillio yn rhan hepgorol o barhad ein ecosystem.

Mae 90% o blanhigion sy'n tyfu yn y gwyllt yn dibynnu, yn rhannol neu'n gyfangwbl, ar anifeiliad i'w peillio, ac mae mwy na 75% o dyfiant bwydydd, a 35% o dir amaethyddol, y byd yn ddibynol yn yr un modd.

Ac felly, yn ôl y CU, mae peillyddion yn cyfrannu yn uniongyrchol at sicrhau ein dogn o fwydydd i'n cynnal, yn ogystal a diogelu bioamrywiaeth ein byd.

Mae'r ymgyrch eleni yn canolbwyntio ar y rhan y gall ieuenctid ein byd ei chwarae tra'n ymwneud a'r materion rheini, yn y gobaith y byddai hyn yn ei dro yn arwain at fagu cenhedlaeth newydd o arweinwyr amgylcheddol a fydd a'r gallu i wneud penderfyniadau pell-gyrrhaeddol yn y maes.

Gallai creu dulliau amgen o amaethu fod yn nod, gan eithrio cemegau gwenwynig o'r tir, a hynny yn gwella ansawdd a maint y cynhaeaf o fwydydd fyddai ar gael - gan arwain at leihau'r newyn a'r tlodi sy'n llethu ein byd ar hyn o bryd.

Ond mae'r cyhoeddiad gan y CU yn pwysleisio yn ogystal nad ydi amser o blaid y gwenyn – "*rhaid gweithredu 'nawr* " yw'r gri – gan nodi bod y rhywogaethau yn diflannu ar gyfradd sydd rhwng 100 a 1000 gwaith yn uwch na'r arferol OHERWYDD ein esgeulustod ni, y ddynoliaeth ddysgedig, waraidd, sydd ohoni.

[Mae ystadegau yn dangos bod yn agos at 35% o'r peillyddion *di-asgwrn-cefn* (invertebrates), yn benodol y gwenyn a'r pili-pala, a thua 17% o'r peillyddion eraill, megis yr ystlym, yn wynebu diflaniad llwyr o'r herwydd.]

Canlyniad hyn fydd colli bwydydd llesol i'r corff, megis ffrwythau, cnau a llawer o lysiau, gan dyfu'n or-ddibynnol ar reis, corn a thatws – bwydydd fyddai yn eu tro yn ymborth anghytbwys i'n cyrff.

Ac wrth reswm, mae cynhesu byd-eang yn gefn-len fygythiol i'r cyfan!

Mae'r CU yn rhoi cyfeiriad y gallem ni, fel unigolion a theuluoedd, eu cymeryd er lliniaru peth o'r pryderon sy'n bodoli, megis:-

Plannu blodau cynhenid yn ein gerddi, sy'n blodeuo ar wahanol amseroedd o'r flwyddyn:

Prynu mêl lleol

Prynu cynnyrch o gynhyrchwyr 'cynaliadwy' cydnabyddedig

Hepgor y defnydd o 'chwyn a phla-laddwyr' yn ein gerddi

Gwarchod heidiau gwenyn gwyllt, pan fo hynny'n bosibl

Noddi 'Cwch gwenyn'

Gadael bowlen o ddŵr yn yr ardd er disychedu'r gwenyn

Rhannu'r pryderon am ddyfodol y gwenyn yn ein cymdeithas a'n bro

Maent hefyd yn annog llywodraethau a'r rhai sydd mewn grym i wrando ar yr arbenigedd sydd o fewn y cymunedau lleol ar sut i warchod yr amgylchedd a'i bioamrywiaeth.

Yn ôl a welaf, ychydig iawn o gyfeiriadau at y '*gwenyn*' (neu 'wenynen") sydd i gael yn y Beibl, er fod digonedd o sôn am '*fêl*', (a diliau mêl), ynddo!

"*Bydd yr Arglwydd yn chwibanu ar y gwybed sydd yn afonydd pell yr Aifft a'r* ***gwenyn*** *sydd yng ngwlad Asyria. Byddan nhw'n dod ac yn glanio yn y cymoedd cul, serth, a'r hafnau sydd yn y creigiau, yn y llwyni drain a'r lleoedd i ddyfrio anifeiliaid…Caws colfran a* ***mêl*** *fydd bwyd pawb sydd ar ôl yn y wlad"* [Beibl.net - Eseia 7: 18 …21]

Ac fel y gellid disgwyl, sôn y mae'r Beibl yn amlach na pheidio am y wlad neu dir ffrwythlon "*…lle mae'r llaeth a'r mêl yn llifo*", ac mae mêl yn cael ei grybwyll ymysg cynnyrch gorau'r wlad, nad oedd i'w ddefnyddio mewn offrwm o unrhyw fath.

Yn yr Hen Destament, mae yn hanes Joseff, Moses, Samson a Jonathan, a nifer o'r Proffwydi:-

"Ewch â pheth o gynnyrch gorau'r wlad yn eich paciau, yn anrheg i'r dyn – ychydig o falm a mêl, gwm pêr, myrr, cnau pistasio ac almon." [Joseff, yn Genesis 43:11]

"Roedd yn edrych fel hadau coriander, yn wyn, ac yn blasu fel bisgedi wedi'u gwneud gyda mêl. [Moses a'r "manna" yn Exodus 16:31]

"Beth amser ar ôl hynny, aeth Samson i Timna i'w phriodi hi. Ar ei ffordd, aeth i weld beth oedd ar ôl o'r llew oedd wedi ymosod arno. Cafodd fod haid o wenyn yn byw yn sgerbwd yr anifail a bod mêl ynddo." [Barnwyr 14:8]

"*Ond doedd Jonathan ddim wedi clywed ei dad yn gwneud i bawb dyngu'r llw. Felly dyma fe'n estyn blaen ei ffon i'r mêl, ac yna ei rhoi yn ei geg. Roedd wedi'i adfywio'n llwyr"*. [1 Samuel 14:27]

Fe gewch ddaioni yn y Diarhebion:-

*"Mae gwefusau'r wraig anfoesol yn diferu fel mêl, a'i geiriau hudol yn llyfn fel olew*;" [Diarhebion 5:3]

*"Mae geiriau caredig fel diliau mêl, yn felys eu blas ac yn iach i'r corff.*"[Diarhebion 16:24]

*"Fy mab, bwyta fêl – mae'n dda i ti – ac mae diliau mêl yn felys yn dy geg*." [Diarhebion 24:13]

*"Mae rhywun sydd wedi cael digon i'w fwyta yn gwrthod mêl, ond i'r sawl sy'n llwgu, mae'r peth mwyaf chwerw yn blasu'n felys*." [Diarhebion 27:7]

Heb sôn am seboni yng Nghaniad Solomon 4:11:-

"*Mae dy gusan yn felys, fy nghariad, yn diferu fel diliau mêl. Mae mêl a llaeth dan dy dafod, ac mae sawr dy ddillad fel persawr Libanus*."

Ac yn y Testament Newydd, yr un fyddai'n dod i'n meddyliau gyntaf siwr o fod, yw'r hanes am Ioan Fedyddiwr (o Mathew 3:4):

"*Roedd dillad Ioan wedi'u gwneud o flew camel gyda belt lledr am ei ganol, a'i fwyd oedd locustiaid a mêl gwyllt."*

Ac fel pe bai yn ein harwain yn unionsyth at heddiw yng ngwlad y Beibl, dyma llyfr olaf ynddo yn mynegi chwerwder yr hyn sy'n digwydd yno ar hyn o bryd:-

"*Dyma fi'n cymryd y sgrôl fechan o law yr angel ac yn ei bwyta. Roedd yn blasu'n felys fel mêl yn fy ngheg, ond ar ôl ei llyncu trodd yn chwerw yn fy stumog.* "[Datguddiad 10:10]

Brysied y dydd y bydd y melys yn gorchfygu'r chwerw ym mywydau pobl Israel a Phalesteina.

## Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**Gig Ieuenctid @ Clwb y Bont**
Mae'r Fenter wedi bod yn cydweithio gyda Clwb y Bont i gynnal gigs ieuenctid i bobl ifanc 14+ eleni, a braf yw gweld y gynulleidfa ifanc yn tyfu o gig i gig.

Roedd y gig ddiwethaf ar ddiwedd mis Ebrill wedi gwerthu allan, a pherfformiadau gan y bandiau ifanc Echdoriad ac Anhunedd, a Wigwam yn cloi'r noson o flaen cynulleidfa ifanc frwdfrydig. Braf oedd gweld disgyblion a chyn ddisgyblion o ysgolion Cymraeg Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd yn joio yng Nghlwb y Bont!

Bydd y gig nesaf ar nos Wener Gorffennaf 5ed gyda bandiau Prosiect RIFF ac Eädyth.



**Prosiect RIFF:**
Yn ystod mis Ebrill a Mai cynhaliodd Menter Iaith brosiect i greu a mentora bandiau newydd, mewn partneriaeth gyda Cerdd Gymunedol Cymru, Gwasanaeth Cerdd Rhondda Cynon Taf a Chlwb y Bont.

Cynhaliwyd 4 penwythnos o weithdai gydag Eädyth, Lewys a Katie Hall (Chroma) yn fentoriaid i'r bobl ifanc.

Mae cyfnod cyffrous o flaen y bandiau fynychodd y gweithdai gan y byddant yn perfformio yn gig ieuenctid nesaf Clwb y Bont ar Orffennaf 5ed yn ogystal â pherfformio yng Nghaffi Maes B ar faes yr Eisteddfod am hanner dydd ar ddydd Llun Awst 5ed.

Diolch i adrannau cerdd yr ysgolion uwchradd am eu cefnogaeth i'r prosiect hwn, ac rydyn ni'n gobeithio ei ail adrodd yn yr Hydref



**Diwrnod gyda Bardd Plant Cymru**
Cawson ni ddiwrnod arbennig yng



Nghanolfan Garth Olwg ar yr 22ain o Fai gyda Bardd Plant Cymru - Nia Morais a'r arlunydd ac animeiddiwr Osian Roberts. Braf oedd gallu croesawu cynrychiolaeth o bob ysgol Gymraeg y sir i gymryd rhan yn y diwrnod. Cafodd y plant gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai er mwyn ysbrydoli darn o farddoniaeth a gwaith celf arbennig i groesawu pobl i'r Eisteddfod a'r ardal leol. Rydym yn edrych ymlaen at weld y cyfanwaith i ddathlu cymunedau Rhondda Cynon Taf.

**Addysg Oedolion a Rhaglen Lluosi**
Bydd y Fenter yn cynnig rhaglen o sesiynau addysg oedolion a hefyd cyrsiau fel rhan o'r rhaglen newydd Lluosi dros y misoedd nesaf. Dyma rhai o'r sesiynau sydd ar y gweill. Os hoffech chi ymuno â'r sesiynau isod cysylltwch â gweithgareddau@menteriaith.cymru i gofrestru.

**Crefft a Chlonc Canolfan Garth Olwg**
Dydd Iau 6 Mehefin - Dydd Iau 18 Gorffennaf 2024 – 13:00-15:00
Ymunwch â ni am gyfres o 7 gweithdy hamddenol a chyfeillgar gyda Rhian o Growing Space Pontypridd. Cyfle i gymdeithasu a sgwrsio yn Gymraeg wrth ddysgu gwneud crefftau amrywiol yn seiliedig ar natur, uwchgylchu ac ailgylchu.

**Sgwrs 1-i-1 Ar-lein**
Dydd Mawrth 11 Mehefin – Dydd Mawrth 16 Gorffennaf – 11:00-13:00

**Sesiynau sgwrs 1-i-1 Llyfrgell Pontypridd**
Dydd Mercher 5 Mehefin – Dydd Mercher 10 Gorffennaf – 11:00-13:00
Dydd Gwener 7 Mehefin – Dydd Gwener 12 Gorffennaf – 11:30-13:30
Sesiynau galw i mewn am sgwrs anffurfiol i godi hyder a defnyddio'r Gymraeg sydd gyda chi. Bydd y sesiynau yn rhedeg mewn person ac ar-lein. Bydd y sesiynau yn rhedeg yn wythnosol am 6 wythnos.

**Gweithdai Bynting Canolfan Garth Olwg**
Dydd Mawrth 2 Gorffennaf & Dydd Mawrth 16 Gorffennaf - 12:30-14:30

**Gweithdai Bynting Neuadd y Dref Pentre**
Dydd Llun 8 Gorffennaf – 12:30-14:30 a Dydd Llun 22 Gorffennaf – 18:00-20:00
Eisiau helpu harddu eich ardal yn barod i groesawu pobl o bob rhan o Gymru i'r Eisteddfod ym mis Awst? Ymunwch ag un o'n gweithdai arbennig gyda Julie the Stitch a dysgu sut mae gwneud eich bynting cartref eich hun! Cyfle i gymdeithasu a sgwrsio yn Gymraeg wrth ddysgu crefft newydd.

**Siarad Rybish**
Rydym yn trefnu sesiwn Siarad Rybish arall ar **ddydd Mercher 19eg o Fehefin**. Dyma gyfle i ddod i gymdeithasu, ymarfer eich Cymraeg a dysgu geirfa newydd tra'n gwella'r amgylchfyd! Os oes diddordeb gyda chi fod yn rhan o'r sesiwn casglu sbwriel yma neu unrhyw sesiynau yn y dyfodol a helpu tacluso'r parc yn barod am yr Eisteddfod, cysylltwch â gweithgareddau@menteriaith.cymru

**Swyddi Clybiau Carco**
Hoffech chi ymuno â thîm sy'n darparu gofal ar ôl ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg? Mae Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn edrych am staff ar gyfer ein Clybiau Carco. Rydym yn hysbysebu'r cyfleoedd gwaith isod:

**Person â gofal Aberdâr**
**Dirprwy Aberdâr**
**Dirprwy Garth Olwg**
**Staff cyffredinol**

Os oes diddordeb gyda chi ddysgu mwy am y swyddi, cysylltwch â lisa@menteriaith.cymru

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!** Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe
**Facebook:** @MenterIaithRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct
**Gwefan:** www.menteriaith.cymru
**E-bost:** post@menteriaith.cymru
**Ffôn:** 01443 407570



# Ysgol Creigiau

**Noson Ffilm**
Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang wrth i'r disgyblion fwynhau eu bagiau byrfwyd tra'n gwylio'r ffilm 'Migration'. Cawson nhw noson hyfryd. Codwyd £599.42. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu'r noson a diolch i'r staff am ofalu am y disgyblion.

**Casglu Sbwriel**
Bu'r Pwyllgor Eco'n brysur yn casglu sbwriel o amgylch y pentref er mwyn cadw Creigiau'n dwt a'n daclus. Yn anffodus, daethon nhw o hyd i gryn dipyn o sbwriel o amgylch y parc. Cofiwch eich bod yn codi'ch sbwriel os gwelwch yn dda er mwyn cadw Creigiau'n daclus.



Aelodau Eco'n barod i fynd i gasglu sbwriel yn y pentref

**Den Dreigiau Creigiau**
Mae Dosbarth 6 a Class 6 wedi bod yn defnyddio ystod o sgiliau i ymchwilio, dylunio a chreu eu tyrbinau gwynt eu hunain. Bu'r disgyblion yn arddangos eu dyluniadau ac yn rhannu eu cyflwyniad i gynulleidfa o ddisgyblion a theuluoedd a bleidleisiodd dros eu hoff ddyluniad a chyflwyniad.

Dyluniad buddugol Dosbarth 6 oedd 'Gwynt y Dyfodol' a gynlluniwyd gan Iris, Gracie-May, Hedd a Jacob. Dyluniad buddugol Class 6 oedd 'Fusion Energy' a ddyluniwyd gan Charlotte, Shoni, Isabella, Isaac a Marley.

Am waith anhygoel! Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 am baratoi cyflwyniadau gwych.



**Hanesydd Lleol**
Ymwelodd Mr Lynn Thomas, hanesydd lleol, â'r ysgol i siarad â disgyblion Blwyddyn 3 a 4. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar ei straeon am Greigiau ac edrych ar luniau a llyfrau i weld sut mae pethau wedi newid dros y blynyddoedd. Diolch Mr Thomas am rannu eich gwybodaeth am y pentref gyda ni.



Dosbarth 3 a 4 yn gwrando'n astud ar hanesion difyr Mr Lynn Thomas

**Archifau Morgannwg**
Ymwelodd disgyblion Dosbarth 5 a Class 5 ag Archifau Morgannwg. Edrychon nhw ar hen fapiau o Greigiau a dysgon nhw fwy am ein pentref. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad newydd hwn yn fawr.



**Gweithdy 'Mai Di-Dor'**
Ymunodd disgyblion Dosbarth 2 gyda gweithdy byw 'Mai Di-Dor'. Trafodon nhw bwysigrwydd blodau gwyllt i'n hamgylchedd a bod torri'r gwair yn niweidio'r blodau gwyllt sy'n cael effaith negyddol ar ein hamgylchedd. Esgus da felly i beidio â thorri'r gwair/porfa/lawnt!

**Cyfarfod â Llywodraethwyr Ein Hsygol**
Yn ddiweddar daeth 24 o ddisgyblion Blwyddyn 6 i'r ysgol am 6.30yh i fynychu Cyfarfod y Llywodraethwyr. Roedd aelodau pob pwyllgor ysgol yn bresennol - Cyngor Ysgol a Hawliau Plant, Eco, Lles, SNAG, Criw Cymraeg a Siarter Iaith. Siaradodd pob un yn glir ac yn wybodus am y gwaith maent wedi bod yn gwneud yn yr ysgol. Roedd y Llywodraethwyr yn canmol eu proffesiynoldeb ac yn rhyfeddu at eu haeddfedrwydd a'r gwaith da roedd pob pwyllgor yn gwneud yn yr ysgol. Arbennig bawb!



**Llwyddiant Sgïo**
Cystadlodd Conor, Thomas, Dafydd, Jacob, Eiry, Eddie, Aled, Gwen, Maddie a Mali yng nghystadleuaeth 'Snowsport' Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Sgïo Caerdydd yn ddiweddar. Cawsant lawer o hwyl ac ar ddiwedd y digwyddiad fwynheuon nhw seremoni wobrwyo. Rhyngddynt dyfarnwyd 16 medal iddynt. Am gamp - rydyn ni'n falch iawn o bob un ohonynt.

**Tenis**
Y tymor hwn bu Jon Sedgmore, hyfforddwr Clwb Tenis Creigiau, yn ymweld i gyflwyno sesiwn tenis i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6. Cawsant amser gwych yn dysgu sgiliau newydd.



Dosbarth 6 yn mwynhau sesiwn tenis

**Gwasanaeth Tân**
Ymwelodd Katie, ymladdwr tân o Orsaf Dân Yr Eglwys Newydd â'r ysgol. Cymerodd disgyblion Dosbarth 2 a Dosbarth 5 ran mewn sesiynau yn edrych ar ddiogelwch tân. Ymatebodd y disgyblion yn hyderus ac yn synhwyrol wrth drafod peryglon tân a rôl y gwasanaethau achub. Diolch Katie am ymweld â ni.





Cyflwyno i'n Llywodraethwyr

Parhad tudalen 15 >

## Ysgol Creigiau (Parhad)

**Stwnsh Sadwrn**
Daeth cyflwynwyr o gwmni teledu 'Stwnsh Sadwrn' i ymweld â disgyblion Dosbarth 5 a 6. Roedd pawb wrth eu boddau'n chwarae gemau, cael hwyl, bod yn swnllyd a gwneud llanast!



**Ymweld â'r Cylch Meithrin**
Aeth 14 aelod o'n Criw Cymraeg draw at y Cylch Meithrin yn y pentref er mwyn eu cefnogi gyda datblygiad eu sgiliau Cymraeg. Buon nhw'n darllen straeon, yn sgwrsio ac yn chwarae gwahanol gemau tu fewn a thu allan. Fe wnaethon nhw fwynhau'r profiad yn fawr iawn ac maent yn edrych ymlaen at ddychwelyd yn fuan. Diolch yn fawr am y croeso.



Criw Cymraeg yn ymweld a'r Cylch Meithrin

**Diolch Persimmon!**
Croesawon ni dri gweithiwr o gwmni Tai Persimmon ac Aelod Seneddol Gorllewin Caerdydd, Kevin Brennan, i'r ysgol. Gwnaeth yr ysgol gais am gefnogaeth o'u Cynllun Pencampwyr Cymunedol a rhoddwyd siec o £3000 i'r ysgol i gefnogi datblygiad ein hardaloedd dysgu awyr agored ar draws yr ysgol. Edrychwn ymlaen at weld ein disgyblion yn mwynhau eu hunain wrth ddysgu yn ein hamgylcheddau awyr agored gyda'r adnoddau newydd. Diolch o galon, Persimmon!




Persimmon yn cyflwyno siec i aelodau'r Cyngor Ysgol

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y mis: Sian Llewelyn Jones

**Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau**
Bu'r merched ar gylchdaith i Bontypridd ym mis Mai ac fe gafwyd cwmni Merched y Tab i fynd i barc Ynysangharad. Roedd hi'n brynhawn sych i gerdded drwy'r parc cyn cwrdd ag Aled Illtud, Cydlynydd Canolfan Calon Taf. Cyflwynodd Aled hanes diddorol y parc a'r datblygiadau diweddaraf sy'n cynnwys safle seindorf newydd a chanolfan addysg a threftadaeth Calon Taf. Wedi ei ariannu gan gyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Trawsnewid Trefi y Cyngor a Llywodraeth Cymru, mae'r ganolfan yn cynnig ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau i'r gymuned gymryd rhan, ymgysylltu a dysgu. Diolch yn fawr i Beti Treharne am drefnu'r digwyddiad.








**Anrhydeddau Gorsedd Cymru 2024**
Llongyfarchiadau i Elinor Snowsill, Elin Llywelyn Williams a Llinos Swain ar gael eu derbyn i'r Orsedd drwy anrhydedd yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf eleni.

**Beating the Bounds**
Bydd miloedd yn ymgynnull yn Llantrisant ar 8 Mehefin i'r digwyddiad hwn a gynhelir unwaith bob saith mlynedd.

**Codi Arian i'r Eisteddfod**
Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur am un o ddigwyddiadau drefnir gan Grŵp Codi Arian i'r steddfod ardal Llantrisant, Tonysbuboriau, Meisgyn a Phontyclun ym mis Gorffennaf. Ar Orffennaf 11eg fe fydd Will Morus Jones yn Neuadd y Guild Llantrisant gyda chyflwyniad dwyieithog 'Beer, Ballards and Bards',mynediad yn £10. Dim ond lle i 50 sydd yn y neuadd ac fe allwch archebu sêt drwy gysylltu â Eirlys a Steve Lamb ar 01443225066. Edrychwch allan hefyd am fanylion y BBQ sy'n cael ei drefnu ar gyfer 20fed o Orffennaf yng ngardd Carole ac Eric Willis, Groesfaen.

**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i dîm peldroed dan 16 oed Pontyclun am ennill y dwbwl eleni. Ddechrau Mai, cipiodd y tîm y gynghrair lleol, sef ardal Taf Elái a Chaerffili, ac ar y Fai 25ain bu'r tîm yn fuddugol yn rownd derfynol y cwpan gan guro Bargoed o bedair gôl i un. Llongyfarchiadau i'r bechgyn a'u hyfforddwyr, Gary Dalton, Wayne Pearce ac Owen Edwards.



# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Ymweliad Blwyddyn 5 a 6 â'r Senedd**




Ar Fai 15fed, aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i'r Senedd ym Mae Caerdydd. Dyma adroddiad merched Blwyddyn 6 o'r diwrnod-

Dysgon ni am y gwahanol bartïon sydd yn gweithio yn y Senedd ac aethon ni i mewn i ystafell o'r enw y Siambr. Cafon ni drafodaeth yn y Senedd Ieuenctid am gael anifeiliaid anwes yn yr ysgol. Dysgon ni lawer o ffeithiau am y Senedd, er enghraifft mae'r Senedd wedi cael ei wneud o bren Cymraeg. Hefyd, mae yna berllyg yng nghanol y Siambr sydd wedi dod yr holl ffordd o Awstralia. Ar ôl i ni orffen yn y Senedd, cawsom ein bwyd a wedyn aethon ni i chwarae bowlio. Cawsom lawer o hwyl!





**Ymweliad Blwyddyn 1 â Pharc y Rhath**

Ar Fai 20fed, aeth disgyblion Blwyddyn 1 i Barc y Rhath yn Nghaerdydd i ddysgu am fywyd gwyllt y jyngl yn y tŷ gwydr, byd natur y parc ac hefyd i gymharu parc mawr yn y ddinas gyda pharc bach lleol ar bwys yr ysgol. Diolch byth roedd y tywydd yn braf ac yn sych! Ac felly ar ôl gweithio'n galed yn y bore yn dysgu am y gwahanol blanhigion ac






anifeiliaid sydd yn byw yn y tŷ gwydr, cafodd y plant bicnic hyfryd o dan gysgod coeden cyn mynd i chwarae yn y parc.

**Gweithdy Menter Iaith**

Ar Fai 22ain cafodd grwp o blant gyfle i fynychu diwrnod o weithdai yn Ysgol Garth Olwg gyda phlant o ysgolion clwstwr Llanhari a Garth Olwg er mwyn creu darnau o waith celf a barddoniaeth ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Mynychodd plant ein hysgol ni weithdy celf yn gyntaf o dan arweiniad yr animeiddiwr Osian Roberts. Creodd y plant gartŵn o adeiladau o'r ardal leol gan gynnwys y Bili Wynt a cherflun Dr William Price. yna, creodd y plant ddwy bennill o farddoniaeth gyda Bardd Plant Cymru, Nia Morais "Fy Ardal i". Profiad gwych i'r plant, ac fe gafodd dau o'r plant eu cyfweld ar y teledu ar gyfer rhaglen Heno hefyd!





**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau fil i Harri am gael ei ddewis i chwarae i dîm pêl-droed. Dyma lun ohono yn arwyddo yn swyddogol i Cardiff City FC yn ddiweddar. Cafodd gyfle i chwarae ar y cae yn Stadiwm Cardiff City cyn cwrdd â chwaraewyr y tîm cyntaf, ac yna cymryd rhan mewn cyflwyniad swyddogol ac arwyddo'r cytundeb. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld Harri yn chwarae dros Gymru yn y dyfodol gobeithio!






**Codi Arian**



Llongyfarchiadau mawr i Toby am godi dros £750 at elusen 'Cancer Research' wrth gymryd rhan mewn Ras Fwdlyd 5K i Blant!

**Llwyddiannau Chwaraeon**



Mae Sophia newydd ddechrau cystadlu yn y Naid Uchel mewn cystadlaethau athletau ac wedi gwneud ei gorau yn y ddwy gystadleuaeth ddiwethaf (1.20m a 1.25m). Mae hi'n gwneud mor dda fel ei bod hi bellach yn y rhestr Pŵer 10 ar gyfer merched dan 13, Cymru. Hi yw rhif 6 yn gyffredinol ond yn ei grŵp blwyddyn (Blwyddyn 6) mae hi wedi'i gosod yn rhif 2.



Cynrychiolodd Rosie De Cymru yng Nghwpan y Sir dan 10 gan chwarae tenis yn erbyn rhai o siroedd cryfion Lloegr. Cafodd RM lwyddiant mawr ym mhob un o'i gemau senglau a dyblau a thîm De Cymru enillodd y digwyddiad. Mae RM a'r tîm nawr yn mynd i'r Wirral ym mis Mehefin ar gyfer y Rowndiau Terfynol Cenedlaethol!



Llongyfarchiadau mawr i Gwilym, Macsen ac Owen a fu'n cystadlu yn rasys Traws Gwlad yr Urdd yn Aberystwyth y tymor hwn. Daeth y tîm yn drydydd! Da iawn wir, fechgyn!

**Cystadlaethau'r Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i dîmau rygbi a phêl-droed yr ysgol am chwarae yn arbennig o dda yn rowndiau terfynol cystadlaethau'r Urdd yn Aberystwyth yn ystod mis Mai. Diolch i Mr Jones am eu hyfforddi a diolch i'r rhieni am bob cefnogaeth.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Gweithdy Barddoniaeth a Chelf Menter Iaith**
Cafodd 3 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 gyfle arbennig i fod yn rhan o weithdy Barddoniaeth a Chelf, Menter Iaith gyda Nia Morais ac Osian Roberts i greu gwaith ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd pawb wedi mwynhau cyfarfod a chyd-weithio gyda ysgolion Cymraeg y sir.



Gweithdy Barddoniaeth Menter Iaith gyda Nia Morais



Trafod syniadau gyda'r dylunydd Osian Roberts

**Caffi Byrbrydau Iachus**
Diolch yn fawr i blant Cam Cynnydd 1 a 2 am drefnu caffi byrbrydau iachus a oedd wedi eu gwneud o ffrwythau. Roeddynt wedi treulio amser yn cynllunio a pharatoi'r byrbrydau a hysbysebu'r caffi. Gwaith campus, blasu ac iachus!







Y côr yn perfformio mewn cyngerdd i gasglu arian at yr Eisteddfod.

**Côr yr Ysgol**
Braf oedd cael cefnogi ymgyrch Tonyrefail a Gilfach Goch i gasglu arian at gronfa'r eisteddfod, y tro hwn mewn cyngerdd yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail gyda Chôr Merched Taf Elai, Côr Ysgol Llanhari, Côr Ysgol Cwmlai a chantorion o Ysgol Gymunedol Tonyrefail. Roedd pawb wedi mwynhau'r cyngerdd a pherfformio. Diolch i bawb am gefnogi.

**Diwrnod Seren a Sbarc**
I ddathlu Diwrnod Seren a Sbarc bu'r Criw Cymraeg yn cynnal sesiynau gemau buarth gyda'r holl ddosbarthiadau. Ffordd hwyliog iawn i gadw'n heini tra'n siarad Cymraeg.




**Pêl-droed**
Cafodd aelodau timau pêl-droed Blwyddyn 3/4 a Blwyddyn 5/6 gyfle i chwarae yn erbyn timau o ysgolion lleol ar gaeau Maritime ym Mhontypridd. Roedd y ddau dîm wedi chwarae yn arbennig o dda. Diolch yn fawr i'r rhai a ddaeth i gefnogi.



Tîm pêl-droed Blwyddyn 5 a 6



Tîm pêl-droed Blwyddyn 3 a 4

**Diwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da**
Cynhaliwyd gwasanaeth i rannu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd gyda disgyblion yr ysgol. Bu plant CC3 wrthi yn brysur yn llunio cerdiau Neges Heddwch i'w gyrru i ysgolion eraill.



Blwyddyn 3 gyda'u cardiau Dydd Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd

**Sioe Carnifal Y Cymoedd**
Daeth cwmi Ad Lib i'r ysgol i berfformio eu sioe Carnifal y Cymoedd yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau'r cyflwyniad bywiog ac wedi dysgu llawer am hanes Rhondda Cynon Taf yr un pryd!

**Prynhawn Coffi, Cacen a Chlonc**
Diolch yn fawr i Ffrindiau'r Ysgol am drefnu a chynnal prynhawn 'Coffi, Cacen a Chlonc' yn yr ysgol. Cafwyd cefnogaeth ardderchog ple y cafodd pawb gyfle i gael sgwrs ac ymarfer eu Cymraeg. Casglwyd £72 tuag at yr apêl.





Chwilio am greaduriaid y dŵr

Parhad tudalen 18 >

# Ysgol Garth Olwg

**Taith i Fae Caerdydd a'r Senedd**
Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 wibdaith i Fae Caerdydd am y diwrnod. Diolch yn fawr i Mick Antoniw am rannu ei brofiadau a straeon diddorol am ei rôl fel aelod o'r senedd gyda'r plant. Mwynhaodd pawb yn fawr iawn.



**Gweithdai Darllen**
Yr wythnos diwethaf, roedd yr ysgol dan ei sang gyda rhieni'r disgyblion yn cymryd y cyfle i fod yn rhan o'u gweithdai darllen am y bore. Roedd y plant wrth eu boddau wrth iddyn nhw groesawi'r rhieni i mewn a derbyn cymorth gyda'u tasgau difyr.



**Gweithdy Barddoniaeth Elinor Wyn**
Cafodd nifer fawr o ddisgyblion y cyfle i weithio gydag Elinor Wyn er mwyn defnyddio'u sgiliau creadigol i greu cerddi Triban. Ceir nifer o gerddi diddorol gyda phob un yn llwyddo i greu cerdd effeithiol am eu hardal nhw. Diolch yn fawr i Elinor am ei brwdfrydedd a'i gwaith gyda'r disgyblion.





Dangosodd Elinor sut i ddefnyddio ap 'odliadur' er mwyn eu cynorthwyo wrth fynd ati i feddwl am eirfa addas ar gyfer eu cerddi.

**Sioe AD/LIB**
Diolch o galon i'r cwmni brwd ac egnïol am eu hymweliad i'r ysgol isaf i berfformio sioe arbennig iawn am hanesion enwogion Rhondda Cynon Taf i'r disgyblion ar ddechrau tymor yr haf. Cafodd bawb brynhawn arbennig wrth wrando a gwylio.

**Cystadleuaeth Cwpan Rhondda Cynon Taf**
Enillodd Tîm Pêl-droed y 6ed cystadleuaeth ym mhencampwriaeth cwpan Rhondda Cynon Taf wrth iddyn nhw ennill 3 – 2 yn erbyn ysgol Y Pant. Roedd y gêm yn un hynod o gystadleuol ond o ganlyniad i berfformiad gwych a chryf y disgyblion, sicrhaodd hyn buddugoliaeth i'r disgyblion. Arbennig – da iawn chi.



**Capiau Cymru**
Llongyfarchiadau i Harry Kinsey, Ryan Jones, Ioan Leyshon am gael eu capiau cyntaf am gynrychioli tîm rygbi Ysgolion Cymru o dan 16. Da iawn chi.



**Hyfforddiant Criced**
Ar y 7fed o Fai daeth Criced Cymru i'r ysgol i gynnal sesiwn blas i ferched blwyddyn 7 ar chwarae criced. Mynychodd dros 50 o ferched y sesiwn a phawb wedi buddio o'r profiad gwerthfawr. Bydd y merched yn mynd yn eu blaen i chwarae gemau a chymryd rhan mewn cystadlaethau criced yn y dyfodol.



**Pencampwyr Pêl-droed**
Ar y 7fed o Fai, aeth bechgyn draw i gae Tonyrefail i chwarae yn erbyn ysgol Porth a llwyddon nhw i ennill o 7 – 2. Dyma ffordd wych i orffen eu cyfnod ym mlwyddyn 11 gyda theitl pencampwyr cwpan pêl droed RhCT.



**Pêl-rwyd**
Llongyfarchiadau i India a Darcy am gystadlu ym mhencampwriaeth clybiau pêl rwyd genedlaethol ar ddydd Sadwrn! Da iawn merched! Llwyddodd y clwb i chwarae gemau o safon uchel dros ben.



## Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (Parhad)

**Canolfan Addysg Dŵr Cymru**
Bu Blynyddoedd 3,4,5, a 6 ar ymweliad â Chanolfan Addysg Dŵr Cymru yng Nghilfynydd yn ddiweddar. i ddysgu am y gylchred ddŵr, newid hinsawdd ac am y creaduriaid sydd yn byw mewn pyllau dŵr fel rhan o'u gwaith ar y thema 'Troi a Llifo'.

**Gweithdy EESW Stem Cymru**
Cymerodd plant Blwyddyn 5 a 6 ran mewn gweithdy lled-ddargludyddion gyda EESW Stem Cymru. Edrychodd y plant ar y gwahaniaeth rhwng dargludiad ac insiwleiddio a sut mae lled-ddargludyddion yn cael eu defnyddio yn ein bywydau pob



Gweithdy STEM Bl 5 a 6

# Menter Caerdydd

menter caerdydd

Wedi mis Mai prysur a Gŵyl Fach y Fro lwyddiannus yn y Barri, bydd criw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn troi eu sylw at dymor yr haf a threfniadau Tafwyl dros yr wythnosau nesaf. Yn ogystal â'r cyrsiau a'r sesiynau arferol, bydd gweithgareddau amrywiol o bob math yn ystod Gŵyl Ffrinj Tafwyl. Dyma i chi gip ar rai o brif ddigwyddiadau mis Mehefin...

**Bore i Siaradwyr Newydd yn Sain Ffagan**
Byddwn ni'n cynnal digwyddiad ar y cyd â Dysgu Cymraeg Caerdydd a Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ar fore Iau, 13 Mehefin. Y tro hwn, awn ar daith 'meddylgarwch' o gwmpas y safle i ddysgu mwy am fyd natur a bywyd gwyllt, a hynny yn y Gymraeg. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim ond mae niferoedd yn gyfyngedig. I gofrestru, ewch i: Cwrs Blasu | Cyrsiau | Dysgu Cymraeg

**Mewn Tiwn**
Y sacsoffonydd o Gaerdydd, Catrin Roberts, fydd yn ymuno â ni fore Llun, 24 Mehefin ar gyfer cyngerdd anffurfiol yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina. Wedi gadael Glantaf yn 2021, mae Catrin bellach yn fyfyrwraig yn y Guildhall yn Llundain. Bydd y gyngerdd yn dechrau am 11.30 ond bydd y drysau ar agor o 11.15 i chi fwynhau paned a sgwrs o flaen llaw. Does dim angen tocyn ac mae'r gyngerdd yn rhad ac am ddim.

**Sgwrs y Mis: Caerdydd a'r Fro a Stori Ryfeddol Deiseb Heddwch Menywod Cymru, 1923-4**
Yn ystod blwyddyn canmlwyddiant y ddeiseb heddwch fawr a gludwyd i'r UD ar ran menywod Cymru, bydd Dr Siân Rhiannon Williams yn rhannu ei phrofiad o ail-ddarganfod y stori gudd a rhyfeddol hon, ac yn gofyn, pwy ymhlith menywod Caerdydd a'r Fro fu'n trefnu ac yn casglu llofnodion. Cawn gip ar rai o'r ffurflenni a'r llofnodion lleol a chlywed sut y gallwch chi ymuno â'r ymdrech fawr i drawsgrifio'r 390,296 o enwau er mwyn creu bas data sydd ar gael i bawb. **Nos Lun, 24 Mehefin, 7.30yh ar Zoom. Am ddim.** I gofrestru: https://mentercaerdydd.cymru/event/sgwrs_y_mis_mehefin_2024_zoom/29



Gŵyl Fach y Fro

**Y Cwis Mawr: Rownd Caerdydd**
Snail's Deli, Rhiwbeina fydd lleoliad rownd Caerdydd o'r Cwis Mawr eleni a bydd pitsa a sglodion ar gael yn rhad ac am ddim i bawb sy'n cystadlu. Bydd cyfle i'r tîm buddugol fynd ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol gyda thocyn diwrnod am ddim i bob aelod o'r tîm. Mae'r cwis yn rhan o gynllun cenedlaethol rhwng Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn addas i siaradwyr newydd o bob lefel a'u ffrindiau! **Nos Iau, 4 Gorffennaf, 6.30yh. Am ddim.** I gofrestru eich tîm o bedwar, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/event/y_cwis_mawr_rownd_caerdydd_2024/29

**Tafwyl a'r Ŵyl Ffrinj**
Wrth i ni edrych ymlaen at Tafwyl ym Mharc Bute, cofiwch am holl ddigwyddiadau'r Ŵyl Ffrinj. O Dragwyl i'r Gig Ieuenctid ac o Daith Gerdded Carnhuanawc i Gynhadledd Llais Caerdydd, bydd rhywbeth i bawb o bob oedran yn ystod yr wythnosau sy'n arwain at yr ŵyl ar 13 a 14 Gorffennaf. Dyma i chi flas o rai o'r digwyddiadau sydd ar y gweill:

**Taith Hanes ym Mharc Cathays**
Taith gerdded yn dathlu hanes menywod yn y brifddinas yng nghwmni Sara Huws, Swyddog Ymgysylltu Dinesig Prifysgol Caerdydd. Mae Parc Cathays yn gartref i brif Gampws y Brifysgol, yn ogystal â Neuadd y Ddinas, adeiladau'r Llywodraeth a'r Amgueddfa – ardal sy'n gysylltiedig â dynion pwerus. Ond os edrychwch yn ofalus, fe welwch fod hanes menywod ym mhobman. O ymgyrchwragedd i gerddorion, swffragetiaid i wyddonwragedd - mae'r daith hon yn rhoi cip i chi ar hanes menywod Caerdydd. **Prynhawn Sul, 7 Gorffennaf – taith am 2.00yp ar gyfer siaradwyr newydd a'u ffrindiau a thaith i bawb yn Gymraeg am 3.30yp. Am ddim.** https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Tafwener**
I ddathlu pen-blwydd Tafwyl yn 18 oed eleni, dyma ni'n cyflwyno noson arbennig o adloniant digri ar nos Wener yr ŵyl yng nghwmni Cabarela, Connie Orff, Mel Owen a Carwyn Blayney. Glamorgan Brewing Co sy'n noddi 'Tafwener' ac mae'r noson yn addas ar gyfer y rhai dros 18 oed. Mae'r tocynnau'n £18 ac yn gwerthu'n gyflym felly ewch i'r wefan nawr i fachu eich sedd! **Nos Wener, 12 Gorffennaf, Parc Bute gyda Tafwyl yn dilyn ar y dydd Sadwrn a Sul.** https://mentercaerdydd.cymru/event/tafwener_2024/29

**Gweithgareddau i blant yn ystod yr ŵyl Ffrinj**
**Sgwad Sgwennu**
Fel rhan o Ffrinj Tafwyl, cynhelir sesiynau arbennig o'r Sgwad Sgwennu i ddathlu pen-blwydd yr ŵyl yn 18 oed. Bardd Plant Cymru, Nia Morais, fydd yn arwain y sesiynau hwyliog fydd yn annog plant i ddefnyddio eu dychymyg a mwynhau creu gyda geiriau! Dyddiad y Sgwad Sgwennu yw prynhawn, Mercher, 3 Gorffennaf gyda sesiwn i flynyddoedd 3 a 4 am 4.00yp ac i flynyddoedd 5 a 6 am 5.00yp. Mae'r tocynnau'n £8 a rhaid archebu lle o flaen llaw. https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc/clybiau

**Picnic Plant**
Dewch am bicnic llawn hwyl a sbri yng nghwmni Siân o Do Re Mi yn Nhŷ Eglwys y Rhath, Heol Waterloo. Mae'r tocynnau'n rhad ac am ddim ond rhaid archebu lle o flaen llaw. **Prynhawn Llun, 8 Gorffennaf am 1.30yp.** https://mentercaerdydd.cymru/cy/rhiant-a-phlentyn

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd**
**E-bost:** post@mentercaerdydd.cymru
**Ffôn: 029 2068 9888**



# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Y Torch Olympaidd**

Buom yn ffodus iawn i basio Torch Olympaidd o ddosbarth i ddosbarth fel rhan o'n thema 'Y Gemau Olympaidd'. Dyma rai o'r disgyblion yn dal y Dorch Olympaidd. Diolch i Owen Williams am roi benthyg i ni!







**Sesiwn gym / Codi pwysau**

Diolch yn fawr i CF72 Fitness am ddarparu sesiwn gym addysgiadol a saff i Flwyddyn 5 a 6. Roedd pawb wrth eu bodd.








**Mwy o godi pwysau!**

Diolch yn fawr i Jen Johnson am ddarparu sesiwn codi pwysau i flynyddoedd 1 - 4!





**Wythnos Iechyd Meddwl**

Diolch yn fawr i Suzie o Chwaraeon RhCT am gynnal sesiwn yoga'n fyw arbennig fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.



**Marathon Fach**

Cawsom ddiwrnod arbennig ar yr 8fed o Fai wrth i'r holl ddisgyblion redeg 2.6 milltir - marathon fach! Da iawn chi!









**Parc Ynysanharad**

Bu disgyblion Blwyddyn 3 draw ym Mharc Ynysangharad a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd gyda disgyblion Llwyncelyn. Mae criw y ddwy ysgol wedi bod yn ysgrifennu at ei gilydd ar e-bost ac roedd yn braf cael cyfarfod wyneb yn wyneb ar safle'r Eisteddfod Genedlaethol.



**PC Jenkins**

Diolch i PC Jenkins am ddod atom gyda neges bwysig am fwlio a seibrfwlio. Mae PC Jenkins wedi gweithio gyda'r ysgol dros y flwyddyn i drafod sawl pwnc allweddol i sicrhau diogelwch y disgyblion. Diolch am eich gofal dros bawb ohonom!



**Gwasanaeth Cerddoriaeth RhCT**

Diolch i Miss Morgan @RCTMusicService am ein haddysgu i ganu caneuon newydd yn y Gymraeg tra'n chwarae'r glockenspiel!





**Gweithdy Barddoniaeth Menter Iaith Rhondda Cynon Taf**

Bu grŵp o Flwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn gweithdy gyda Bardd Plant Cymru Nia Morais a'r animeiddiwr Osian Roberts i greu gwaith celf a darn o farddoniaeth sydd yn dathlu holl ardaloedd y Sir. Diolch yn fawr i Osian Rowlands o Fenter Iaith Rhondda Cynon Taf am drefnu. Braf oedd cydweithio gyda chymaint o ysgolion gwahanol.





**Hyfforddiant Beicio Blwyddyn 6**

Diolch yn fawr i Matthew Penny a Louise am ddarparu Hyfforddiant Beicio i Flwyddyn 6. Mae nhw i gyd yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch y ffordd erbyn hyn ac nifer ohonynt yn manteisio ar ddod yn ôl ac ymlaen i'r ysgol ar eu beiciau.

Parhad tudalen 21 >

## Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (Parhad)







**Hyfforddiant Pêl-droed gyda Megan Bowen**
Diolch i Megan Bowen, aelod o garfan pêl-droed Dan19 Cymru, am ymuno gyda ni i hyfforddi disgyblion Blwyddyn 1 a 2! Diolch i ti Megan, cyn ddisgybl YGG Castellau - rwyt ti'n ysbrydoliaeth i'r chwaraewyr ifanc yn ein hysgol!





**Diwrnod Beicio**
Dyma blant ifancaf yr ysgol yn mwynhau'r cyfle i ddod a'u beiciau i'r ysgol ar y diwrnod olaf cyn gwyliau hanner tymor!



## Ymgyrch Codi Arian yn Codi Stêm er budd Achub y Plant

Mae aelodau canghennau Achub y Plant Cymru yn codi stêm gogyfer eu hymgyrch codi arian diweddaraf sy'n cynnig cyfle euraidd i deuluoedd, rhai sy'n ymddiddori mewn trenau a chefnogwyr yr elusen i fwynhau rhai o olygfeydd godidocaf Cymru.

Mae tri phâr o 'docynnau aur' yn rhodd gan Trenau Bach Arbennig Cymru ac sy'n werth bron i £400 y pâr ar gael i'w hennill. Bydd pob tocyn yn caniatáu i'r enillwyr fwynhau hyd at unarddeg o deithiau yn eu hamser hamdden dros gyfnod o flwyddyn.

Bydd rhieni, plant a'r rhai sy'n frwd dros drenau yn gallu profi cyffro teithio ar drên stêm heibio rhai o olygfeydd mwyaf trawiadol y byd gan gynnwys ucheldiroedd Eryri, Bannau Brycheiniog, Dyffryn Rheidiol, llwybr arfordirol Fairbourne ac ar hyd llynnoedd y Bala a Llanberis.

Gellir gwneud cais drwy rodd i'r dudalen Just Giving www.justgiving.com/page/emma-berry-1712827993575.

Bydd yr arian yn mynd tuag at Gronfa Argyfwng Achub y Plant sy'n galluogi'r elusen i ymateb yn syth pan fo trychineb yn digwydd ac i argyfyngau ar draws y byd gan gynnwys yn Gaza, Wcráin ac yn Nwyrain Affrica lle mae plant yn newynnu ar ôl y sychder gwaethaf ers deugain mlynedd a ddilynwyd gan lifogydd eithafol.

Yng Nghymru, mae un o bob tri phlentyn yn cael eu magu mewn tlodi gyda llawer o deuluoedd yn cael trafferth fforddio pethau sylfaenol fel bwyd, dillad ac i dalu eu biliau.

I wneud cais drwy roi cyfraniad tuag at Gronfa Argyfwng Achub y Plant – www.justgiving.com/page/emma-berry-1712827993575.

Os byddai'n well gennych gymryd rhan heb wneud cyfraniad, e-bostiwch eich enw a'ch manylion cyswllt at f.meehan@savethechildren.org.uk a byddwn yn sicrhau bod gennych gyfle i ennill.

Cyhoeddir yr enillwyr ar 30 Mehefin 2024.

## Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd

Dawns Werin Bl.4 ac iau: 2il Adran Bro Taf.
Llefaru Unigol Bl.2 ac iau: 2il Teleri Gwen Lloyd Y. G. G. G. Llantrisant.
Dawns Stepio Grŵp Bl.6 ac iau: 2il Bro Taf.
Dawns Werin Bl.6 ac iau (Ysgolion dros 100 o blant rhwng 4-11oed ac Adrannau): 2il Bro Taf
Perfformiad Theatrig Bl.6 ac iau: 1af Adran Bro Taf.
Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4: 3ydd Elan Spanswick, Y.G.G. Castellau.
Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Unigol Bl.6 ac iau: 3ydd Alaw Fflur Gwilym-Davies, Y G G Gwaelod Y Garth.
Parti Cerdd Dant Bl.6 ac iau (Unsain) (Adran): 1af Bro Taf
Llefaru Unigol Bl.5 a 6 (D): 2il Gracie Burr-Green, Ysgol y Creigiau.
Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9 (D): 2il Y Pant Grŵp 1,Ysgol Gyfun Y Pant
Perfformiad Theatrig o Sgript Bl.6 ac iau (D): 2il Grŵp Caitlyn, Ysgol y Creigiau
Parti Cerdd Dant Bl.9 ac iau (Adran): 3ydd Bro Taf.
Côr Bl.6 ac iau (Adran): 3ydd Bro Taf
CogUrdd Bl.4, 5 a 6: 3ydd Alfred Edwyn Vincent Jones, Ysgol Garth Olwg
Ensemble Lleisiol Bl.7, 8 a 9: 3ydd Ysgol Llanhari.
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol i Fechgyn: 3ydd Osian Jones, Adran Bro Taf
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol i Ferched Bl.9 ac iau: 1af Beca Fflur George, Adran Bro Taf
Dawns Werin Bl.7, 8 a 9: 1af Bro Taf, Adran Bro Taf
Parti Merched Bl.7, 8 a 9: 1af Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed: 3ydd Erin Fflur Jardine, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.
Stand-Yp 14-25 oed: 2il Iestyn Gwyn Jones, Cylch Canol Caerdydd
Côr S.A. Bl.7, 8 a 9: 1af Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.
Perfformaid Theatrig Unigol Bl.10 a dan 19 oed: 3ydd Courtney Olwen Manel, Aelod Unigol Tu allan i Gymru.
Perfformaid Theatrig Unigol o gân o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed: 2il Sara Neve Rees-Roberts, Ysgol Garth Olwg
Unawd Piano Bl.10 a dan 19 oed: 2il Erin Fflur Jardine, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr.
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol i Ferched Bl.10 ac o dan 25 oed: 2il Elen Morlais Williams, Adran Bro Taf, Morgannwg Ganol
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol i Fechgyn Bl.10 a dan 25 oed: 1af Morus Caradog Jones, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Dawns Stepio Grŵp dan 25 oed: 1af Bro Taf Daniel a Morris, Adran Bro Taf.
Dawns Stepio Bl.7 a dan 25 oed: 1af Bro Taf.
Creu Ap Bl.7, 8 a 9: 3ydd Gruffydd Morris, Ysgol Llanhari
Creu Gwefan Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp): 3ydd Gruffydd Morris, Ysgol Llanhari
Barddoniaeth Bl.12 a 13: 2il, Mali Williams, Ysgol Garth Olwg
Fideo Tiktok: 1af Tomos Geraint, Ysgol Gymraeg Evan James, 2il Gwenno Davies Ysgol Llanhari
Gornest y Gacen: 2il Gwenno Davies, Ysgol Llanhari
Dynwarediad: 2il Gwenno Davies, Ysgol Llanhari

# Hanner cofio Prifwyl '56 Ar y daith i Aberdâr

Fel Monwysyn, roedd dod lawr i ddieithrwch De Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol yn antur a hanner i mi ym 1956. Gwir fod ein dolen deuluol gydag 8 Maerdy Road, yn y "Ma'rdy", Rhondda Fach, drwy Yncl Hughie ac Anti Kitty, wedi ein hanner gyfarwyddo â thrigolion y cylch. Wedi'r cwbl, roedden ni wedi gweld Cwmni'r "Moss Players" yn cystadlu yn erbyn Cwmni'r Gwter Fawr yn Aberystwyth, bedair mlynedd ynghynt. A dau "o'r North" wedi dod lawr i'r De oedd y tylwyth, er fod eu tafodiaith yn bur wahanol i ardal eu gwreiddiau ym Môn ac Arfon.

Doeddwn i ddim cweit wedi cyrraedd fy mhen-blwydd yn 14 mlwydd pan gefais deithio mewn cerbyd Awstin 16 i lawr "i'r Sowth" am fy nhro cyntaf erioed. Yn cyd-deithio yn y cerbyd roedd yna hynafgwr 80 mlwydd oed, John Jones, Tre'r Dryw. Roedd yn athro Ysgol Sul yn Nwyran, ond yn ei ddyddiau cynnar bu'n gweithio yn y glofeydd a hyd yn oed yn herio cyd-ymladdwyr yn y "boxing booths". Cofiaf yn dda, ar ein taith, fel y disgrifiodd roi "cernod" i'w wrthwynebydd yn rhyw ornest! Gair nas clywais cyn hynny ac nas anghofiais o'r dydd hwnnw.

**Y daith**

Mae fy atgofion am yr ymweliad Eisteddfodol yn rhai pur wasgaredig. Fi oedd y tywysydd gan mod i'n gallu darllen y map yn weddol ddeheuig – ymhell cyn dyddiau Sat-Nav. I ni, yr adeg honno 'doedd arnom ddim awydd dilyn llwybr yr A470, os oedd hi'n bodoli dan yr enw hwnnw ym 1956. Wedi gadael Ynys Môn, rhaid oedd dilyn yr A5 i gyfeiriad yr Amwythig. Ond pan basiodd John Jones arwydd "Maerdy", ger Corwen, tybiodd ein bod yn nesáu at ddiwedd ein siwrnai. Wedi iddo gael "cropar go dda o wisgi" mewn tafarn ger Llangollen, ymdawelodd a chysgodd am ran helaeth o'r daith wedi hynny. Roedd ein siwrnai'n golygu crwydro'r gororau drwy ganol trefi Llwydlo a Henffordd, ymhell cyn dyddiau ffyrdd osgoi. Yna, anelu ar draws gwlad sir Fynwy ac i Bontypridd, heb fynd i Gaerdydd o gwbl.

**Helynt Suez**

Y cof fwyaf byw o'r daith honno i'r de oedd cyrraedd ardal Pont-y-pŵl, lle roedd yna ffordd ac iddi rywbeth cwbl ddiarth i drigolion Ynys Môn, sef dwy lôn i'r ddau gyfeiriad. Ond, roedd un ochr wedi ei llanw'n llwyr â cherbydau'r fyddin. Dyma'r adeg pan oedd yna ddarparu ar gyfer helynt Camlas Suez ac yr oedd yno resi o gerbydau wedi eu lliwio ym mhaent y fyddin – i gyd wedi eu parcio'n barod i'w hanfon drwy Gasnewydd yn ddiweddarach i'r gyflafan yn yr Hydref.

Do, fe gyrhaeddon ni'r Maerdy'n ddiogel. A do, fe fuon ni yn ymweld sawl dydd ag Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr 1956. Ond gwae fi! Mae gen i fwy o gof o'r daith hunllefus a gam-ddisgrifiwyd fel un "ond dros y mynydd" o'r Maerdy i Barc Aberdâr. Cerbyd Awstin 16 ffermwr o Fôn oedd ein cludiant, brêcs cebl digon elfennol, yn mentro dros y mynydd, a'r troadau heriol hynny, sydd fawr gwell hyd yn oed heddiw, ar y daith ddyddiol i'r Brifwyl.

**Atgofion prin**

Fel plentyn cwta pedair-ar-ddeg, dylai fod gennyf atgofion byw o uchafbwyntiau'r Brifwyl. Na – sori! Ydw, dwi'n cofio croeso'r Maerdy, ymweld â'r lofa ben ucha'r cwm a'r daith frawychus dros droadau'r mynydd. Bydd raid i chi ddibynnu ar rywun arall i sôn am awdl ysgafn fuddugol Mathonwy Hughes i'r "Wraig" ac am siom atal y Goron.

Mae gen i well cof am bicio i weld bedd Guto Nyth Bran yn Llanwynno ac yna i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd i weld trysor ganfuwyd ar union fferm fy ewyrth ym Môn. Gwaetha'r modd, nid yw "Cleddyf Gelliniog Wen" yn cael ei arddangos yno bellach, er i mi gael sicrwydd rai blynyddoedd yn ôl ei fod yn dal ym meddiant yr Amgueddfa. Mi wyddwn i'n iawn yr adeg honno am yr union fan y canfuwyd y cleddyf hynafol lai na milltir o lannau Afon Menai. Trueni na fyddai lle iddo bellach yn ei hen sir, gan ei fod ynghudd ers degawdau yn y brifddinas.

**Nasser a'i gamlas**

Ond, dewch yn ôl, am funud cyn cloi, at y daith honno y tro diwethaf y bu'r Brifwyl yn y Cymoedd hyn. Bydd sawl cyfeiriad cwbl deilwng eleni at Aberdâr ac 1956. Ond o hyd, yr hyn sy'n amlycaf yn fy nghof ydy'r cerbydau rhyfel wedi eu crynhoi yn ardal Pont-y-pŵl, oherwydd yr anghydfod dros Gamlas Suez a'r Cyrnol Nasser yn y Dwyrain Canol.

Roedd Gamal Abdel Nasser wedi di-orseddu'r Brenin Farouk yn yr Aifft chwe mlynedd ynghynt ac wedi dweud ers tro ei fod am genedlaetholi Camlas Suez, y stribyn dwr oedd wedi bod cyhyd dan reolaeth Prydain a Ffrainc.

Heb ymhelaethu gormod, roedd gan Nasser gefnogaeth Rwsia a'r Unol Daleithiau, tra bod Israel, Ffrainc a Phrydain â'u llygaid ar gael gwared â'r Cyrnol. Felly, rhan fach o'r paratoadau hynny welson ni ar gyrion Pont-y-pŵl, gryn dri mis cyn yr ymgyrch aflwyddiannus i lanio byddin a meddiannu Camlas Suez. Bu i fyddin Israel ymosod o un ochr gyda Phrydain a Ffrainc yn ymuno o'r ochr arall ar ddiwedd mis Hydref 1956. Bu pum wythnos o frwydro ac yn y cyfamser, roedd milwyr yr Aifft wedi suddo 40 o longau yn y gamlas. Llanast llwyr, arweiniodd i ymddiswyddiad Anthony Eden fel Prif Weinidog San Steffan y flwyddyn ganlynol.

Ymron saith deg mlynedd yn ddiweddarach, er fod teyrngarwch sawl un o'r cenhedloedd i'w gilydd wedi newid, mae fel pe bai hanes yn bygwth ailadrodd ei hunan yn y Dwyrain Canol, pa bynnag ochr sy'n dewis rhyfela. Hyderwn y bydd synnwyr cyffredin yn darbwyllo'r carfannau hyn i ymatal. Wedi'r cwbl, mae'r arfau yn eu meddiant erbyn hyn yn rhai llawer mwy difaol na'r rhes cerbydau oedd ger Pont-y-pŵl yn nechrau Awst 1956.

***Ifan Roberts***

EISTEDDFOD Rhondda Cynon Taf
3 – 10 Awst 2024
**Codi Hwyl, Codi Calon a Chodi Arian!**

9 Mehefin. Sêl Cist Car yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail.
10 Mehefin. Noson yng nghwmni Delwyn Siôn, Capel Green Street, Aberdâr.
14 Mehefin. Cyngerdd Côr Meibion Pendyrus, Capel Carmel, Treherbet.
20 Mehefin. Cinio'r Tri Chwm
21 Mehefin. Noson o Gân yng Nghlwb y Comrades, Pentre.
21 Mehefin. Gyrfa Chwist a Physgod a Sglodion yng Nghlwb y Glowyr.
27 Mehefin. Cwis yng Nghlwb y Bont.
29 Mehefin. Her Tri Chopa.
7 Gorffennaf. Taith gerdded Ysgol Tref y Rhyg.



# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Llongyfarchiadau**

. . . Iestyn Jones a William Thomas-Jones ar eich camp anhygoel! Y ddau'n gyn-ddisgyblion Ysgol Plasmawr - lle cychwynnodd y ddau ar eu taith a thrwy holl gymalau heriol Gwobrau Dug Caeredin dros y blynyddoedd. Llwyddodd y ddau i ennill yr Efydd, yr Arian a'r Aur a'u cwblhau yn 2022. Ac o'r herwydd cawsant eu anrhydeddu mewn te parti ar lawntiau brenhinol Llundain!




Iestyn a William - y tu allan i Balas Buckingham yn Llundain.

Dyma oedd gan mam Iestyn, Teleri, i adrodd - 'Profiad diddorol oedd cael te a chacen yng ngerddi Buckingham Palace ar ddydd Llun, Mai 13eg eleni. Llwyddodd Iestyn i gwblhau Gwobr Dug Caeredin Efydd, Arian ac Aur gyda Ysgol Plasmawr. Bu'n rhaid iddo gwblhau 4 agwedd- Gwirfoddoli, Corfforol, Datblygu sgil ac alldaith. Lwcus bod y tywydd yn braf!'

Y sgil benderfynodd William e ddatblygu oedd dyfarnu gêmau rygbi. Bu'n gwirfoddoli am dros flwyddyn gyda Clwb Rygbi Pentyrch gan ddechrau fel hyfforddwr i'r tîmau iau, a datblygu'r tîm dan 8 i gychwyn ac aros gyda nhw nes iddynt gyrraedd dan 11 oed. Hefyd roedd rhaid cwblhau antur enbyd - sef heic dros y Bannau dros gyfnod o bedwar niwrnod a phedair noson olygai daith o dros 90 km! Cwblhawyd y tasgau yn 2022 a bellach mae ganddynt dystysgrifau i brofi eu wedi yn llawn deilwng o'r Gwobrau arobryn yma!

Llongyfarchiadau anferth, fechgyn! Dyfalbarhad go iawn! A diolch i athrawon Ysgol Plasmawr wnaeth eich annog a'ch ysgogi!

**Côr Cymru**

Llongyfarchiadau i Eilir Owen Griffiths, Capel Llanilltern, arweinydd Côr Ifor Bach, ddaeth yn ffuddugol yn rownd derfynol Côr Cymru.

**Llwyddiant 'Noson Owain Glyndŵr'**

Cafwyd noson arbennig yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau nos Sadwrn 11 Mai yng nghwmni Geraint Thomas. Adnabyddir Geraint fel melinydd Amgueddfa Sain Ffagan .

Disgrifiwyd Geraint fel 'super fan' Owain Glyndŵr a dyna daro'r hoelen ar ei phen. Adlonnodd aelodau Clwb Gwawr Crotesi Creigiau a chynulleidfa o bobl yr ardal gyda ffeithiau am ei arwr a rhoddodd hanes am greu'r gêm lewyrchus iawn wnaeth greu am ei arwr.

Diolch i Teleri Jones am drefnu'r noson ar ran y Crotesi. Mae'r elw wedi ei gyfrannu tuag at wobr o £500 ar gyfer Tlws Coffa Lois Blake yn Eisteddfod RhCT 2024.



## Ras Bryn Pentyrch 2024

Roedd y tywydd yn arwain at Ras Bryn Bentyrch eleni mewn gwrthgyferbyniad llwyr i amodau braf a heulog y ras y llynedd. Heriodd glaw trwm unrhyw gystadleuwyr gwangalon ond ni ataliodd 209 o unigolion brwd rhag herio'r ddringfa 488m ar hyd cwrs 11.7km.

Gwnaeth y tîm newydd o drefnwyr y ras ychydig o newidiadau i'r llwybr ond fe fwynheuodd, John Gough, y dyn oedd yn gyfrifol am ddechrau'r ras, wylio'r don fawr o redwyr yn gadael am Heol Tyn-y-Coed.

Roedd y cystadleuwyr yn ddiolchgar i'r gwirfoddolwyr o Garth Rotari, Eglwys Sant Catwg, Ambiwlans Sant Ioan, Clwb Rygbi Pentyrch a nifer o glybiau a sefydliadau rhedeg lleol am eu cymorth parod. Nid oedd yr amodau dan draed yr hawsaf a chafodd rhedwyr oedd yn mentro am y tro cyntaf sioc o wynebu'r cymylau wrth iddynt ddychwelyd i'r copa cyn cychwyn y ddisgynfa beryglus i Glwb Rygbi Pentyrch.

Roedd 203 wedi cwblhau'r cwrs ac yn dilyn cystadleuaeth frwd rhwng y prif redwyr yn ystod y filltir olaf, llwyddodd Harry Jones i guro'r rhedwr lleol Rowan Axe (AC Caerdydd) i gipio'r bencampwriaeth eleni a Nynke Kniper (Rhedwyr CDF) yn cipio'r teitl pencampwraig oddi ar Katie Ironside (Mynyddwyr De Cymru ).

Michael Davies



# Clwb y Bont

Rhyfedd sut mae amser yn diflannu wrth fwynhau eich hunain; a dyna'n union sut gellir disgrifio'r wythnosau diwethaf yng Nghlwb y Bont. Braf oedd croesawu Theatr Bara caws yn ôl am y tro cyntaf ers blynyddoedd gyda'u taith Ffenast Siop. Roedd perfformiad un person Carys Gwilym o flaen cynulleidfa lawn yn rymus, doniol ac wedi ei amseru'n berffaith.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill y mis cynhaliwyd gweithdy creu baner i groesawu'r Eisteddfod o dan arweiniad yr artistiaid Anna Billes ac Angharad Evans; fe gefais innau'r fraint o gyflwyno cwis newydd i ddysgwyr (gyda'r bwriad o gynnal nosweithiau cyson i'r dyfodol, gan gynnwys nos Iau 25ain Gorffennaf); a bu llawn lle o ganu a dawnsio yn gig Pwdin Reis a'r Gerddorfa Ukulele.

Dros yr wythnosau nesa o ganlyniad i geisiadau grant llwyddiannus, mi fyddwn yn cyflwyno gwelliannau i du allan yr adeilad sy'n rhan o'n weledigaeth hirdymor i wella'r ddarpariaeth wrth ymweld â'r Clwb. Ymhlith y cynlluniau, bydd gosod arwydd mawr sydd wedi ei gomisiynu i grogi fel bwa ar ben y stryd i groesawu aelodau a chwsmeriaid, goleuadau deniadol, yn ogystal â chanopi a chelfi newydd. Cewch hanes creu'r arwydd newydd yn y rhifyn nesaf.

Wrth gwrs mae ein gorwelion nawr ar gynllunio a pharatoi ar gyfer wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ac erbyn y rhifyn nesa o Tafod Elái mi fyddwn yn cyhoeddi rhaglen lawn o weithgareddau dyddiol fydd yn cynnwys gigs, comedi, twmpath, cwis ac aduniad Ysgol Rhydfelen. Mae'n gyffrous!

Gwaith tîm fydd yn sicrhau y cawn wythnos lwyddiannus yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol, felly rydym yn apelio'n daer am wirfoddolwyr i helpu gyda phob math o ddyletswyddau, ac mi fyddwn cyn bo hir yn dechrau recriwtio staff cyflogedig ychwanegol hefyd i ymwneud â gwaith y bar a chefnogaeth gyffredinol. Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y cyfamser os oes diddordeb i fod ynghanol y cyffro -
swyddogclwbybont@gmail.com

Ambell uchelfan ym mis Mehefin –

Nos Fercher 12fed – Clwb Ffilmiau/Film Showcase yn cyflwyno "Iris on the Move". Cyfle i wylio ffilmiau sy'n dathlu LHDTC+ a mis Pride.

Nos Wener 14eg – Gig Lowri Evans. Rydym yn teimlo'n freintiedig iawn i groesawu'r gantores o Sir Benfro i'n plith. Fe'i disgrifiwyd gan gyflwynydd Bob Harris Country ar BBC Radio 2, fel "un o'i hoff artistiaid".

Nos Wener 21 - Laff ar y Taff 2. Yn dilyn llwyddiant ein noson gomedi stand-yp cyntaf ym mis Mawrth, bydd Gary Slaymaker, Steffan Evans, Josh Pennar a Katie Gill-Williams yn camu i'r llwyfan yn llawn jôcs a straeon digri o dan arweiniad Aled Richards. Dewch draw am lond lle o chwerthin iach.

Nos Iau 27 - y Cwis Misol yn dychwelyd i'w slot arferol gydag elw'r raffl yn cyfrannu at gronfa apêl yr Eisteddfod.

Mae manylion ein digwyddiadau ar Facebook a gellir archebu tocynnau o safle Ticketsource - www.ticketsource.co.uk/clwb-y-bont

Gobeithio y gwelwn ni chi cyn bo hir!

Aled Wyn Phillips



Pwdin Reis




Cerddorfa Ukelele

